

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mawrth 2019 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 1 – 6)

CLA(5)–10–19 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir
Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

2.1 SL(5)339 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Parthau Diogelwch) (Gweithdrefnau Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) (Diwygio) (Cymru) 2019

2.2 SL(5)340 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019

2.3 SL(5)347 – Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) (Diwygio) 2019

2.4 SL(5)361 – Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

2.5 SL(5)387 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019



2.6 SL(5)391 – Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) (Cymru) 2019

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.7 SL(5)371 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Aseidiadau Poblogaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

3 Offerynnau a drafodwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun gwaith craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3
(Tudalennau 7 – 8)

CLA(5)–10–19 – Papur 2 – Adroddiadau clir ac eithrio pwynt rhinweddau sengl o dan Reol Sefydlog 21.3 (wedi bod yn destun sifftio)

3.1 SL(5)379 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

4.1 SL(5)343 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

(Tudalennau 9 – 53)

CLA(5)–10–19 – Papur 3 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 4 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 5 – Memorandwm Esboniadol

4.2 SL(5)344 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019

(Tudalennau 54 – 77)

CLA(5)–10–19 – Papur 6 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 7 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 8 – Memorandwm Esboniadol

4.3 SL(5)345 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019

(Tudalennau 78 – 98)

CLA(5)–10–19 – Papur 9 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 10 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 11 – Memorandwm Esboniadol

4.4 SL(5)348 – Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2019

(Tudalennau 99 – 144)

CLA(5)–10–19 – Papur 12 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 13 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 14 – Memorandwm Esboniadol

4.5 SL(5)351 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019

(Tudalennau 145 – 196)

CLA(5)–10–19 – Papur 15 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 16 – Gorchymyn

CLA(5)–10–19 – Papur 17 – Memorandwm Esboniadol

4.6 SL(5)354 – Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardaloedd) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

(Tudalennau 197 – 215)

CLA(5)–10–19 – Papur 18 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 19 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 20 – Memorandwm Esboniadol

4.7 SL(5)355 – Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019
(Tudalennau 216 – 237)

CLA(5)–10–19 – Papur 21 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 22 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 23 – Memorandwm Esboniadol

**4.8 SL(5)357 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion
(Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**
(Tudalennau 238 – 271)

CLA(5)–10–19 – Papur 24 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 25 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 26 – Memorandwm Esboniadol

**4.9 SL(5)358 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol
(Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**
(Tudalennau 272 – 292)

CLA(5)–10–19 – Papur 27 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 28 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 29 – Memorandwm Esboniadol

**4.10 SL(5)359 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2019**
(Tudalennau 293 – 309)

CLA(5)–10–19 – Papur 30 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 31 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 32 – Memorandwm Esboniadol

**4.11 SL(5)360 – Rheoliadau Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**
(Tudalennau 310 – 332)

CLA(5)-10-19 – Papur 33 – Adroddiad

CLA(5)-10-19 – Papur 34 – Rheoliadau

CLA(5)-10-19 – Papur 35 – Memorandwm Esboniadol

4.12 SL(5)362 – Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a’u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

(Tudalennau 333 – 362)

CLA(5)-10-19 – Papur 36 – Adroddiad

CLA(5)-10-19 – Papur 37 – Rheoliadau

CLA(5)-10-19 – Papur 38 – Memorandwm Esboniadol

4.13 SL(5)364 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019

(Tudalennau 363 – 396)

CLA(5)-10-19 – Papur 39 – Adroddiad

CLA(5)-10-19 – Papur 40 – Rheoliadau

CLA(5)-10-19 – Papur 41 – Memorandwm Esboniadol

4.14 SL(5)372 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019

(Tudalennau 397 – 423)

CLA(5)-10-19 – Papur 45 – Adroddiad

CLA(5)-10-19 – Papur 46 – Rheoliadau

CLA(5)-10-19 – Papur 47 – Memorandwm Esboniadol

4.15 SL(5)373 Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

(Tudalennau 424 – 448)

CLA(5)-10-19 – Papur 48 – Adroddiad

CLA(5)-10-19 – Papur 49 – Rheoliadau

CLA(5)-10-19 – Papur 50 – Memorandwm Esboniadol

4.16 SL(5)376 – Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 449 – 462)

CLA(5)–10–19 – Papur 54 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 55 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 56 – Memorandwm Esboniadol

4.17 SL(5)392 – Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Cymru) 2019

(Tudalennau 463 – 476)

CLA(5)–10–19 – Papur 57 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 58 – Gorchymyn

CLA(5)–10–19 – Papur 59 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

4.18 SL(5)335 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 477 – 559)

CLA(5)–10–19 – Papur 60 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 61 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 62 – Memorandwm Esboniadol

4.19 SL(5)365 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019

(Tudalennau 560 – 573)

CLA(5)–10–19 – Papur 63 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 64 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 65 – Memorandwm Esboniadol

**4.20 SL(5)366 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE)
(Rhif 2) 2019**

(Tudalennau 574 – 606)

CLA(5)–10–19 – Papur 66 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 67 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 68 – Memorandwm Esboniadol

**4.21 SL(5)368 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)
(Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 607 – 619)

CLA(5)–10–19 – Papur 42 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 43 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 44 – Memorandwm Esboniadol

**4.22 SL(5)367 – Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol)
(Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 620 – 644)

CLA(5)–10–19 – Papur 69 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 70 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 71 – Memorandwm Esboniadol

4.23 SL(5)370 – Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 645 – 668)

CLA(5)–10–19 – Papur 72 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 73 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 74 – Memorandwm Esboniadol

**4.24 SL(5)374 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 669 – 724)

CLA(5)–10–19 – Papur 51 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 52 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 53 – Memorandwm Esboniadol

**4.25 SL(5)375 – Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 725 – 751)

CLA(5)–10–19 – Papur 75 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 76 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 77 – Memorandwm Esboniadol

**4.26 SL(5)380 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE)
2019**

(Tudalennau 752 – 774)

CLA(5)–10–19 – Papur 78 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 79 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 80 – Memorandwm Esboniadol

**4.27 SL(5)381 – Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
(Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 775 – 797)

CLA(5)–10–19 – Papur 81 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 82 – Rheoliadau

CLA(5)–10–19 – Papur 83 – Memorandwm Esboniadol

**5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad
arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau
o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE**

**5.1 SL(5)341 – Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o'r Effaith
Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2019**

(Tudalen 798)

CLA(5)–10–19 – Papur 84 – Adroddiad

5.2 SL(5)346 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2019
(Tudalen 799)

CLA(5)–10–19 – Papur 85 – Adroddiad

5.3 SL(5)369 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019
(Tudalennau 800 – 802)

CLA(5)–10–19 – Papur 86 – Adroddiad

CLA(5)–10–19 – Papur 87 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 21 Chwefror 2019

5.4 SL(5)377 – Rheoliadau Safonau a Labelu Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019
(Tudalen 803)

CLA(5)–10–19 – Papur 88 – Adroddiad

5.5 SL(5)378 – Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019
(Tudalen 804)

CLA(5)–10–19 – Papur 89 – Adroddiad

6 Papurau i'w nodi

6.1 Llythyr gan y Prif Weinidog : Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad cynnydd
(Tudalennau 805 – 808)

CLA(5)–10–19 – Papur 90 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 11 Mawrth 2019

6.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at y Prif Weinidog: Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad cynnydd
(Tudalennau 809 – 812)

CLA(5)–10–19 – Papur 91 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 14 Mawrth 2019

6.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Offerynnau Statudol Cymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE

(Tudalennau 813 – 816)

CLA(5)–10–19 – Papur 92 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, 11 Mawrth 2019

6.4 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 817 – 818)

CLA(5)–10–19 – Papur 93 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, 8 Mawrth 2019

6.5 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol parthed: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)

(Tudalennau 819 – 820)

CLA(5)–10–19 – Papur 94 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 11 Mawrth 2019

6.6 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Bil Deddfwriaeth (Cymru)

(Tudalennau 821 – 828)

CLA(5)–10–19 – Papur 95 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 8 Mawrth 2019 (+Atodiadau)

6.7 Llythyr gan y Llywydd: Cynhadledd y Llefaryddion

(Tudalen 829)

CLA(5)–10–19 – Papur 96 – Llythyr gan y Llywydd, 13 Mawrth 2019

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

8 Bil Deddfwriaeth (Cymru): Adroddiad drafft

(Tudalennau 830 – 940)

CLA(5)–10–19 – Papur 97 – Adroddiad Drafft

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 18 Mawrth 2019

SL(5)339 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Parthau Diogelwch) (Gweithdrefnau Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) (Diwygio) (Cymru) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Parthau Diogelwch) (Gweithdrefnau Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) 2007 (O.S. 2007/1948) ("Rheoliadau 2007") o ganlyniad i adran 41 o Ddeddf Cymru 2017. Daw adran 41 i rym ar 1 Ebrill 2019.

Mae adran 41 yn diwygio adrannau 95 a 96 o Ddeddf Ynni 2004 fel y bydd gan Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas â datgan parthau diogelwch o gwmpas gosodiadau ynni adnewyddadwy alltraeth (sydd â gallu cynhyrchu o hyd at 350 megawat) yn nyfroedd Cymru. Mae'n drosedd i longau ddod i mewn neu aros mewn parth diogelwch oni bai y caniateir iddynt wneud hynny drwy hysbysiad parth diogelwch a ddyroddir gan y Gweinidog priodol (yn nyfroedd Cymru, Gweinidogion Cymru fydd hyn).

Mae Rheoliadau 2007 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddi fynd gyda chais parth diogelwch, yn ogystal â'r gofynion gweithdrefnol y mae angen eu bodloni. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiadau rhag y gwaharddiad ar fynediad i barth diogelwch a gweithgareddau ynddo.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf Cymru 2017

Fe'u gwnaed ar: 18 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 20 Chwefror 2019

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2019



SL(5)340 – Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

O 1 Ebrill 2019, Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod priodol mewn perthynas â cheisiadau o dan adrannau 36 a 36A o Ddeddf Trydan 1989 (“Deddf 1989”) sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu yn nyfroedd Cymru sydd â chapasiti nad yw'n fwy na 350 megawat.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau am gydsyniad o dan adran 36 o Ddeddf 1989 i adeiladu, estyn neu weithredu gorsaf gynhyrchu alltraeth.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf Trydan 1989

Fe'u gwnaed ar: 18 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 20 Chwefror 2019

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2019

SL(5)347 – Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (“y Gorchymyn Gweithdrefn”).

Mae erthygl 2 yn diwygio erthygl 8 (sy'n ymwneud â chyhoeddi ceisiadau arfaethedig) ac erthygl 12 (sy'n darparu gofynion cyffredinol mewn perthynas â cheisiadau) o'r Gorchymyn Gweithdrefn. Mae'r diwygiadau yn ychwanegu gofynion pan fo datblygiad yn cynnwys gosod mathau penodol o linellau trydan uwchben. Mae'r gofynion yn ymwneud â'r wybodaeth y mae'n rhaid i berson sy'n bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio ei chyhoeddi, a chynnwys y cais hwnnw.



Mae Atodlenni 1 a 2 yn amnewid y ffurflenni hysbysu yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn Gweithdrefn er mwyn ystyried y ffaith y caniateir i benderfyniadau ynghylch cydsyniadau sy'n gysylltiedig â datblygu llinellau trydan uwchben penodol gael eu cymryd gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

Mae Atodlen 3 yn diwygio Atodlen 5 i'r Gorchymyn Gweithdrefn i ddiwygio'r gofynion mewn cysylltiad â'r ymgylgoreion arbenigol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, o dan erthygl 22 o'r Gorchymyn hwnnw, ymgynghori â hwy cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Fe'u gwnaed ar: 4 Mawrth 2019

Fe'u gosodwyd ar: 5 Mawrth 2019

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2019

SL(5)361 – Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i'r is-ddeddfwriaeth ganlynol, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru mewn perthynas â monitro a rheoli afiechydon milheintiol a thwbercwlosis:

Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007 (OS 2007/2459)

Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (OS 2010/1379)

Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredadwy ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac y bydd yn ymdrin â diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o adael yr UE.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Fe'u gwnaed ar: 25 Chwefror 2019



Fe'u gosodwyd ar: 27 Chwefror 2019

Yn dod i rym a: rheoliadau 1(2)

SL(5)387 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4 o Rheoliadau 2006 (cyfrifo ffioedd) drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 1, Band 2 a Band 3.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

Fe'u gwnaed ar: 5 Mawrth 2019

Fe'u gosodwyd ar: 6 Mawrth 2019

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2019

SL(5)391 – Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) (Cymru) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â thrwyddedau a roddir mewn perthynas â chychod pysgota Cymreig o dan adrannau 4 a 4A o Ddeddf Pysgota Môr (Cadwraeth) 1967, ac â hysbysiadau sy'n amrywio, yn atal neu'n dirymu trwyddedau o'r fath. Mewn perthynas â'r trwyddedau a'r hysbysiadau hyn, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994.

Maent yn darparu ar gyfer y modd y mae trwyddedau o'r fath i gael eu rhoi, eu hamrywio, eu hatal neu eu dirymu, ac ar gyfer yr amser y mae rhoi, amrywio, atal neu ddirymu trwydded i ddod yn effeithiol.



Rhiant–Ddeddf: Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967

Fe’u gwnaed ar: 6 Mawrth 2019

Fe’u gosodwyd ar: 7 Mawrth 2019

Yn dod i rym a: rheoliadau 1(1)

SL(5)371 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Aseidiadau Poblogaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn diwygio Rheoliadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Partneriaeth”) a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Aseidiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Aseidiadau Poblogaeth”) er mwyn ystyried newidiadau i ffiniau byrddau iechyd a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2019.

The draft Regulations amend the Partnership Regulations in order to:

- Change the partners included in both the Cwm Taf and Western Bay Regional Partnership Board areas to take account of the change to the boundaries of Abertawe Bro Morgannwg and Cwm Taf health boards;
- Change the names of the regional partnership boards affected by this health board boundary change to reflect the new names of the Swansea Bay and Cwm Taf Morgannwg health boards;
- Clarify requirements for regional partnership boards to establish regional pooled funds in relation to care home places for older People;
- Require housing and education representation on regional partnership boards;
- Clarify when regional partnership boards must produce annual reports.

They also amend the Population Assessments Regulations in order to:



- Change the partnership arrangements for population assessments to take account of the health board boundary change;
- Change references to the names of the health boards above to reflect changes to those names as a result of the boundary change. **Rhiant–Ddeddf:**
Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar:



Offerynnau Statudol sydd ag adroddiadau clir, a ystyriwyd yn flaenrol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn ddarostyngedig i graffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

18 Mawrth 2019

Cafodd yr offerynnau canlynol eu hystyried yn flaenrol i'w sifftio yn unol â Rheol Sefydlog 21.3B. Yn y broses sifft, cytunodd y Pwyllgor ym mhob achos mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau oedd y weithdrefn penderfyniad negyddol. Bellach mae'r offerynnau yn ddarostyngedig i graffu arferol yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Er bod gan yr holl offerynnau adroddiadau clir, maent hefyd yn cynnwys pwynt o ran rhinweddau i amlygu'r broses sifftio:

Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

SL(5)379 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru)

(Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan baragraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Maent hefyd wedi eu gwneud o dan adrannau 132 a 135 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gydnabod cymwysterau athrawon yng Nghymru.



Rhiant–Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 18 Chwefror 2019

Fe’u gwnaed ar: 4 Mawrth 2019

Fe’u gosodwyd ar: 5 Mawrth 2019

Yn dod i rym â: rheoliad 1(2)



SL(5)343 - Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ymchwiliadau y mae Gweinidogion Cymru yn perididnt gael eu cynnal mewn perthynas â cheisiadau:

- am gydsyniad o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i adeiladu, estyn neu weithredu gorsaf gynhyrchu alltraeth yn nyfroedd Cymru sydd â chapasiti nad yw'n fwy na 350 megawat, neu a fydd â chapasiti nad yw'n fwy na hynny.
- o dan adran 36C o Ddeddf Trydan 1989 i amrywio cydsyniad adran 36.

Gweithdrefn

Negyddol

Materion Technegol: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys nifer o wallau teipograffyddol. Dylai Rheoliad 2(4)(a)(ii) (yn y fersiwn Saesneg) ddechrau gyda 'where' yn hytrach na 'were'. Yn Rheoliad 3(3) (fersiwn Saesneg) mae 'be' diangen ar ôl 'requirement is'. Yn rheoliad 16(3) (fersiwn Saesneg), ymddengys fod 'to be' diangen. Er ein bod yn derbyn mai mân wallau yw'r rhain sy'n annhebygol o achosi dryswch, maent yn wallau drafftio fodd bynnag.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Rheoliad 16(1) yn nodi "rhaid i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiad mewn dwy wythnos olynol sy'n datgan..." - Nid yw'n glir pryd y bydd y cyhoeddiad yn digwydd. Mae rheoliad 16(1)(d) yn darparu bod yn rhaid i'r hysbysiad gynnwys lleoliad, dyddiad ac amser yr ymchwiliad. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i gyhoeddiad ddigwydd ar ôl i'r ceisydd gael hysbysiad o'r ymchwiliad o dan reoliad 15. Fodd bynnag, ymddengys na fyddai dim i atal ceisydd rhag rhoi hysbysiad naill ai yn union cyn yr ymchwiliad neu yn ystod yr ymchwiliad. Gan mai un o ddibenion yr hysbysiad yw gwneud lleoliad, dyddiad ac amser yr ymchwiliad yn hysbys i bersonau y mae unrhyw ganiatâd y gwneir cais amdano yn debygol o effeithio arnynt (fel y gallant fod yn bresennol mae'n debyg), gall cyflwyno'r rhybudd yn union cyn neu yn ystod yr ymchwiliad olygu bod pobl o'r fath yn methu â bod yn bresennol gan nad ydynt wedi cael digon o rybudd.



3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 16(2) nid yw'n glir pam na ddefnyddir y diffiniad o "drwy hysbyseb leol" sy'n cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn y rheoliadau ac a ddiffinnir yn rheoliad 2. Nid yw'n glir felly a yw rheoliad 16(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd wneud rhywbeth ar wahân i gyhoeddi "drwy hysbyseb leol."

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae elfen craffu technegol yr adroddiad drafft yn cyfeirio at dri gwall drafftio, a derbynnir pob un.

Pwynt 1 – gwallau teipograffyddol

Mae'r pwynt adrodd wedi ei nodi a'i dderbyn. Bydd y llywodraeth yn mynd ati i gywiro'r pwynt hwn drwy gyfrwng slip cywiro.

Pwynt 2 – nid yw Rheoliad 16(1) yn nodi'n glir pryd y mae angen cyhoeddi'r hysbysiad

Mae geiriad rheoliad 16(1) yn deillio o baragraff 4 o Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989 ("Atodlen 8") ac mae'n gweithredu ers peth amser, a hynny, mae'n debyg, heb ddim problem. Derbynnir, er hynny, y byddai darparu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad yn cynnig eglurder. Caiff offeryn diwygio ei wneud a'i osod cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Pwynt 3 – yn Rheoliad 16(2) nid yw'n glir pam na ddefnyddiwyd y diffiniad o "drwy hysbyseb leol" a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y rheoliadau ac a ddiffinnir yn rheoliad 2.

Mae'r ddarpariaeth hon yn deillio o baragraff 4 o Atodlen 8. Mae'r geiriad yn fras yr un fath â'r diffiniad o "drwy hysbyseb leol". Er hynny, derbynnir y byddai'n ddefnyddiol er cysondeb pe bai rheoliad 16(1) yn cyfeirio at gyhoeddi hysbysiad "drwy hysbyseb leol", gan hepgor 16(2). Caiff offeryn diwygio ei wneud a'i osod cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol



12 Mawrth 2019



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 304 (Cy. 77)

TRYDAN, CYMRU

**Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd
Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn
Ymchwiliadau) (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ymchwiliadau y mae Gweinidogion Cymru yn peri iddynt gael eu cynnal mewn perthynas â cheisiadau:

- am gydsyniad o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 (“Deddf 1989” a'r cydsyniad hwnnw yn “cydsyniad adran 36”) i adeiladu, estyn neu weithredu gorsaf gynhyrchu alltraeth;
- o dan adran 36C o Ddeddf 1989, i amrywio cydsyniad adran 36.

At ddibenion y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at gais am gydsyniad adran 36 yn cynnwys unrhyw gais o dan adran 36A o Ddeddf 1989 am ddatganiad sy'n ymwneud â hawliau mordwyo cyhoeddus a wneir gyda chais am gydsyniad adran 36.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â cheisiadau a wneir ar ôl 1 Ebrill 2019 o dan adrannau 36 a 36C o Ddeddf 1989 sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu (neu orsafoedd cynhyrchu arfaethedig) yn nyfroedd Cymru sydd â chapasiti nad yw'n fwy na 350 megawat, neu a fydd â chapasiti nad yw'n fwy na hynny.

Ystyr “dyfroedd Cymru” yw hynny o ddyfroedd mewnol a môr tiriogaethol y Deyrnas Unedig sy'n gyfagos i Gymru, a pharth Cymru. Mae i “parth Cymru” yr ystyr a roddir i “Welsh zone” yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith

rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 304 (Cy. 77)

TRYDAN, CYMRU

**Rheoliadau Trydan (Gorsafodd
Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn
Ymchwiliadau) (Cymru) 2019**

Gwnaed 18 Chwefror 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 20 Chwefror 2019

Yn dod i rym 1 Ebrill 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 36(8A), 36C(2) a (6) a 60 o Ddeddf Trydan 1989(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trydan (Gorsafodd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliad y mae Gweinidogion Cymru yn peri iddynt gael eu cynnal ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 i gais neu gais i amrywio.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae “arolygydd” (“*inspector*”) yn cynnwys arolygydd arweiniol ac arolygydd ychwanegol;

ystyr “arolygydd arweiniol” (“*lead inspector*”) yw person a benodir gan Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad neu ymchwiliad a ailagorir;

(1) 1989 p. 29. Mewnosodwyd adran 36(8A) gan baragraff 47 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) (“Deddf 2017”). Mewnosodwyd adran 36C gan adran 20(1) a (2) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) (“Deddf 2013”) ac fe'i diwygiwyd gan adran 39(12) o Ddeddf 2017, a pharagraff 48 o Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill i adran 36C a diwygiadau i adran 60 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

ystyr “arolygydd ychwanegol” (“*additional inspector*”) yw arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 7(2)(a);

ystyr “asesydd” (“*assessor*”) yw person a benodir gan Weinidogion Cymru i eistedd gydag arolygydd mewn ymchwiliad neu ymchwiliad a ailagorir i gynghori'r arolygydd ynghylch unrhyw faterion sy'n codi a bennir gan Weinidogion Cymru;

ystyr “awdurdod â buddiant” (“*interested authority*”) yw unrhyw awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru y mae'r ceisydd wedi cyflwyno hysbysiad am y cais iddo yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad;

ystyr “awdurdod cynllunio cymwys” (“*qualifying planning authority*”) yw—

- (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi peri i ymchwiliad gael ei gynnal o dan reoliad 9(1) o'r Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad, unrhyw awdurdod cynllunio perthnasol sydd wedi gwrthwynebu'r cais yn unol â rheoliad 8(2) o'r Rheoliadau hynny ac nad yw ei wrthwynebiad wedi ei dynnu yn ôl;
- (b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi peri i ymchwiliad gael ei gynnal o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau Amrywio Cydsyniadau, unrhyw awdurdod cynllunio perthnasol, os yw wedi cyflwyno sylwadau (nad ydynt wedi eu tynnu yn ôl) yn gwrthwynebu cais i amrywio;

mae i “awdurdod cynllunio lleol” yr un ystyr ag a roddir i “local planning authority” yn Rhan I o Ddeddf 1990;

mae i “awdurdod cynllunio perthnasol” (“*relevant planning authority*”) yn achos—

- (a) ymchwiliad i gais, yr un ystyr ag a roddir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad;
- (b) ymchwiliad i gais i amrywio, yr un ystyr ag a roddir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Amrywio Cydsyniadau;

ystyr “cais” (“*application*”), ac eithrio pan fo ystyr arall yn ofynnol yn ôl y cyd-destun, yw cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad o dan adran 36(1) i adeiladu, estyn neu weithredu gorsaf gynhyrchu(2), ynghyd ag unrhyw gais o dan adran

(1) Diwygiwyd adran 36 gan adran 93 o Ddeddf Ynni 2004 (p. 20), paragraff 32 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29), adran 12(7) ac (8) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23) (“Deddf 2009”), adran 78 o Ddeddf Ynni 2016 (p. 20) ac adran 39(7) i (11) o Ddeddf 2017, a pharagraff 47 o Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Gweler adran 64(1) o Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (“Deddf 1989”) am y diffiniad o “generating station” (“gorsaf gynhyrchu”).

36A(1) am ddatganiad sy'n ymwneud â hawliau mordwyo a wneir gyda'r cais o dan adran 36;

mae i "cais i amrywio" ("*variation application*") yr un ystyr ag a roddir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Amrywio Cydsyniadau;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw'r person sy'n gwneud cais neu gais i amrywio;

ystyr "cyfarfod rhagymchwiliad" ("*pre-inquiry meeting*") yw cyfarfod a gynhelir cyn ymchwiliad i ystyried beth y gellir ei wneud gyda'r nod o sicrhau y cynhelir yr ymchwiliad yn effeithlon ac yn hwylus, a phan gynhelir dau neu ragor o'r cyfarfodydd hynny ynghylch yr un ymchwiliad, mae cyfeiriadau at gyfarfod rhagymchwiliad yn dod i ben yn gyfeiriadau at y cyfarfod rhagymchwiliad terfynol yn dod i ben;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr un ystyr ag a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(2);

ystyr "cyfryngwr" ("*mediator*") yw person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 9;

ystyr "cynghorydd technegol" ("*technical adviser*") yw person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8;

ystyr "datblygiad adran 90" ("*section 90 development*") yw unrhyw ddatblygiad y mae'r ceisydd, wrth wneud cais neu gais i amrywio, yn gofyn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 90(2) neu (2ZA) o Ddeddf 1990(3) (caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer datblygu gydag awdurdodiad llywodraeth) mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "datganiad achos" ("*statement of case*") yw datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys—

- (a) manylion llawn yr achos y mae person yn bwriadu ei gyflwyno mewn ymchwiliad;
- (b) rhestr o unrhyw ddogfennau y mae'r person hwnnw yn bwriadu cyfeirio atynt neu eu cyflwyno fel tystiolaeth;
- (c) rhestr o'r unigolion y mae'r person hwnnw yn bwriadu eu galw fel tystion; a
- (d) pwnc tystiolaeth pob un o'r tystion hynny;

ystyr "datganiad amlinellol" ("*outline statement*") yw datganiad ysgrifenedig o'r prif sylwadau y mae

(1) Mewnosodwyd adran 36A yn Neddf 1989 gan adran 99(1) o Ddeddf Ynni 2004 (p. 20) ac fe'i diwygiwyd gan adran 12(7) ac (8) o Ddeddf 2009 ac adran 40(1) i (5) o Ddeddf 2017.

(2) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(3) Amnewidiwyd adran 90(2) a (2ZA) gan adran 21(2) o Ddeddf 2013 (p. 27) ac fe'i diwygiwyd gan adran 39(13) o Ddeddf 2017.

person yn bwriadu eu cyflwyno mewn ymchwiliad;

ystyr “datganiad tir cyffredin” (“*statement of common ground*”) yw datganiad ysgrifenedig a lunnir ar y cyd gan yr awdurdod cynllunio perthnasol (pan fo’n awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru) a’r ceisydd, sy’n cynnwys gwybodaeth ffeithiol gytunedig am y cynnig sy’n destun y cais neu’r cais i amrywio;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1);

mae “dogfen” (“*document*”) yn cynnwys ffotograff, map neu blan;

ystyr “drwy hysbyseb leol” (“*by local advertisement*”) mewn perthynas â hysbysiad, yw drwy gyhoeddi’r hysbysiad mewn un papur newydd o leiaf, fel bod yr hysbysiad yn debygol o ddod i sylw’r rheini sy’n debygol o gael eu heffeithio gan y cydsyniad y gwneir cais amdano os y’i rhoddir;

ystyr “ffurflen gofrestru” (“*registration form*”) yw ffurflen i’w chwblhau gan bersonau sy’n dymuno cymryd rhan yn yr ymchwiliad;

ystyr “gwrthwynebydd cymwys” (“*qualifying objector*”) yw—

- (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi peri i ymchwiliad gael ei gynnal o dan reoliad 9(1) neu 10 o’r Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad, unrhyw un a wrthwynebodd y cais erbyn y dyddiad y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 8(1) o’r Rheoliadau hynny ac yn y dull y darperir ar ei gyfer yn y rheoliad hwnnw;
- (b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi peri i ymchwiliad gael ei gynnal o dan reoliad 6 o’r Rheoliadau Amrywio Cydsyniad, unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau yn gwrthwynebu’r cais i amrywio erbyn y dyddiad y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 5(6)(b)(iii) o’r Rheoliadau hynny,

ac nad yw ei wrthwynebiad wedi ei dynnu yn ôl;

ystyr “hysbysiad perthnasol” (“*relevant notice*”) yw hysbysiad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru o dan reoliad 4(1);

ystyr “lle” (“*place*”), oni bai bod ystyr arall yn ofynnol yn unol â’r cyd-destun, yw’r lle y mae ymchwiliad yn ymwneud ag ef, hynny yw, y lle—

- (a) y bwriedir adeiladu’r orsaf gynhyrchu, y lle y bydd yr estyniad arfaethedig neu’r lle y mae’r orsaf y bwriedir ei gweithredu wedi ei lleoli; a

(1) 1990 p. 8.

(b) y bydd unrhyw ddatblygiad adran 90 wedi ei leoli.

ystyr “person sydd â hawl i ymddangos” (“*person entitled to appear*”) yw person a ddisgrifir yn rheoliad 17(1), ac mae ymadroddion cytras i’w dehongli yn unol â hynny;

ystyr “y Rheoliadau Amrywio Cydsyniadau” (“*the Variation of Consents Regulations*”) yw Rheoliadau Trydan (Gorsafodd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019(1);

ystyr “y Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad” (“*the Applications for Consent Regulations*”) yw Rheoliadau Trydan (Gorsafodd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019(2);

ystyr “ymchwiliad” (“*inquiry*”) yw ymchwiliad y mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag ef; a phan fo ymchwiliad yn cael ei gynnal drwy sesiynau cydredol, mae’n cynnwys unrhyw sesiwn o’r fath.

(2) Oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran â rhif yn gyfeiriad at yr adran honno o Ddeddf Trydan 1989.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mae gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn ar Weinidogion Cymru neu’r arolygydd i gylchredeg dogfen wedi ei fodloni drwy anfon copi o’r ddogfen honno—

- (a) i’r awdurdod cynllunio perthnasol;
- (b) at y ceisydd; ac
- (c) at bob gwrthwynebydd cymwys sydd wedi nodi yn unol â rheoliad 6(4)(b)(iv) ei fod yn debygol o fod eisiau cael ei gynrychioli yn ffurfiol a chwarae rhan sylweddol yn yr ymchwiliad.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mae gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn ar Weinidogion Cymru neu’r arolygydd i adneuo dogfen wedi ei fodloni drwy anfon copi ohoni—

- (a) yn achos ymchwiliad i gais—
 - (i) pan fo rhan o’r man y mae’r cais yn ymwneud ag ef o fewn ardal awdurdod cynllunio perthnasol, i’r awdurdod cynllunio perthnasol; neu
 - (ii) pan na fo unrhyw ran o’r man y mae’r cais yn ymwneud ag ef o fewn ardal awdurdod cynllunio perthnasol, i’r awdurdod â buddiant; a

(1) O.S. 2019/297 (Cy. 75).

(2) O.S. 2019/295 (Cy. 73).

- (b) yn achos ymchwiliad i gais i amrywio, i unrhyw awdurdod cynllunio perthnasol sy'n awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

(5) Nid oes dim ym mharagraff (3) neu (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu'r arolygydd anfon copi o ddogfen at y person y cafwyd y ddogfen oddi wrtho.

(6) Mae gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi hysbysiad ar wefan wedi ei fodloni—

- (a) drwy gyhoeddi'r hysbysiad, neu'r manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr hysbysiad hwnnw, ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru; neu
- (b) drwy gyhoeddi dolen ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru i wefan arall lle y mae'r hysbysiad wedi ei gyhoeddi neu lle y mae'r manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr hysbysiad hwnnw wedi eu cyhoeddi.

Cyfathrebiadau electronig

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebiadau electronig at unrhyw ddiben o'r Rheoliadau hyn y gellir ei gyflawni yn electronig—

- (a) mae'r ymadrodd “cyfeiriad” yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebiadau o'r fath, ac eithrio pan fo unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu enw a chyfeiriad i unrhyw berson arall, nid yw'r gofyniad wedi ei fodloni oni bai bod y person sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad yn darparu cyfeiriad post;
- (b) mae cyfeiriadau at ddatganiadau, hysbysiau neu ddogfennau eraill, neu at gopiau o'r dogfennau hynny, yn cynnwys cyfeiriadau at y dogfennau hynny, neu gopiau ohonynt, ar ffurf electronig.

(2) Mae paragraffau (3) i (7) yn gymwys pan fo cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio gan berson at ddiben cyflawni unrhyw un neu ragor o ofynion y Rheoliadau hyn i roi neu anfon unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall at unrhyw berson arall (“y derbynydd”).

(3) Ystyrir bod y gofyniad wedi ei gyflawni pan fo'r datganiad, yr hysbysiad neu'r ddogfen arall a drosglwyddir drwy gyfrwng y cyfathrebiad electronig—

- (a) yn un y gall y derbynydd ei gyrchu neu ei chyrcu;
- (b) yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol; ac

(c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ato neu ati yn nes ymlaen.

(4) Ym mharagraff (3), ystyr “yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol” yw bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y datganiad, yr hysbysiad neu’r ddogfen ar gael i’r derbynnydd i’r un graddau â phe bai’r wybodaeth wedi ei hanfon neu ei rhoi drwy gyfrwng dogfen ar ffurf brintiedig.

(5) Pan fo’r derbynnydd yn cael y cyfathrebiad electronig y tu allan i oriau busnes y derbynnydd, ystyrir ei fod wedi ei gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac at y diben hwn ystyr “diwrnod gwaith” yw diwrnod nad yw’n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn wyl y banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1).

(6) Mae gofyniad yn y Rheoliadau hyn bod rhaid i unrhyw ddogfen fod yn ysgrifenedig wedi ei fodloni pan fo’r ddogfen honno yn bodloni’r meini prawf ym mharagraff (3).

(7) Caniateir cydymffurfio â gofyniad yn y Rheoliadau hyn i anfon mwy nag un copi o ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall drwy drosglwyddo un copi yn unig o’r datganiad, yr hysbysiad neu’r ddogfen arall dan sylw.

Hysbysiad gan Weinidogion Cymru

4.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon y canlynol yn ysgrifenedig at y ceisydd a’r awdurdod cynllunio perthnasol—

- (a) hysbysiad bod ymchwiliad i’w gynnal;
- (b) hysbysiad y bydd cyfarfod rhagymchwiliad neu hysbysiad eu bod wedi penderfynu peidio â chynnal cyfarfod o’r fath yn unol â rheoliad 10(2); ac
- (c) datganiad ynghylch y materion sydd, yn eu barn hwy, yn faterion i’w hystyried yn yr ymchwiliad.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg addasu’r datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) ac os ydynt yn gwneud hynny, rhaid iddynt anfon y datganiad addasedig at y ceisydd, a rhaid i’r ceisydd gyhoeddi drwy hysbyseb leol hysbysiad o’r addasiad a wneir.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi addasu’r datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) o dan baragraff (2), rhaid iddynt gyhoeddi hysbysiad ar wefan am yr addasiad a wneir.

(1) 1971 p. 80.

Gwybodaeth ragarweiniol sydd i'w darparu

5. Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dyroddi hysbysiad perthnasol, hysbysu'r ceisydd ac unrhyw awdurdod cynllunio cymwys yn ysgrifenedig am enw a chyfeiriad unrhyw wrthwynebydd cymwys.

Cofrestru

6.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dyroddi hysbysiad perthnasol, anfon at bob person sydd â hawl i ymddangos neu bob person y gwyddant bod ganddynt fuddiant yn y cynnig, gopi o'r datganiad a anfonir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 4(1)(c) a ffurflen gofrestru yn y ffurf y darperir ar ei chyfer ym mharagraff (4).

(2) Ar ôl cael yr hysbysiad perthnasol, rhaid i'r ceisydd gyhoeddi drwy hysbyseb leol hysbysiad yn datgan—

- (a) bod y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ymchwiliad;
- (b) y materion sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad a anfonir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 4(1)(c);
- (c) y trefniadau ar gyfer y cyfarfod rhagymchwiliad cyntaf, os oes un; a
- (d) bod rhaid i bersonau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwiliad gael ffurflen gofrestru oddi wrth Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r ceisydd gydymffurfio â pharagraff (2), gyhoeddi'r hysbysiad y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw ar wefan.

(4) Rhaid i'r ffurflen gofrestru—

- (a) cynnwys y cyfeiriad y mae rhaid dychwelyd ffurflenni wedi eu llenwi iddo a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid gwneud hynny, na chaiff fod yn ddim hwyrach nag wyth wythnos ar ôl dyddiad yr hysbysiad perthnasol;
- (b) gofyn am yr wybodaeth a ganlyn—
 - (i) enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person sy'n cofrestru;
 - (ii) enw, cyfeiriad a rhif ffôn unrhyw asiant, neu, yn achos sefydliad, y person cyswllt;
 - (iii) pa un a oes gan y person sy'n cofrestru fuddiant ai peidio yn unrhyw dir y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef a gaiff ei effeithio gan y cynnig;
 - (iv) pa un a yw'r person sy'n cofrestru yn debygol o fod eisiau cael ei gynrychioli

yn ffurfiol a chwarae rhan sylweddol yn yr ymchwiliad ai peidio;

(v) os na fydd yn debygol o fod eisiau hynny, pa un a yw'r person sy'n cofrestru yn dymuno rhoi tystiolaeth lafar yn yr ymchwiliad ai peidio, neu ond yn dymuno cyflwyno sylwadau ysgrifenedig; ac

(c) gofyn bod dau gopi o ddatganiad amlinellol gan y person sy'n cofrestru yn mynd gyda'r ffurflen gofrestru wedi ei llenwi.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid dychwelyd y ffurflen gofrestru o dan baragraff (4)(a), gylchredeg pob datganiad amlinellol a geir ganddynt fel y crybwyllir ym mharagraff (4)(c).

Arolygwyr ychwanegol

7.—(1) Ar unrhyw adeg ar ôl penodi'r arolygydd arweiniol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r arolygydd arweiniol i—

(a) ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â chynnal yr ymchwiliad a bennir yn y cyfarwyddyd;

(b) gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y materion hynny.

(2) Ar ôl ystyried argymhellion yr arolygydd arweiniol, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) penodi at ddibenion yr ymchwiliad y nifer hwnnw o arolygwyr ychwanegol y maent yn meddwl sy'n briodol; a

(b) cyfarwyddo bod rhaid i bob arolygydd ychwanegol ystyried unrhyw faterion y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â hwy a ddyrennir i'r arolygydd ychwanegol hwnnw gan yr arolygydd arweiniol.

(3) Rhaid i arolygydd ychwanegol—

(a) cydymffurfio â phob cyfarwyddyd o ran materion gweithdrefnol a roddir i'r arolygydd ychwanegol hwnnw gan yr arolygydd arweiniol; a

(b) cyflwyno adroddiad i'r arolygydd arweiniol ar bob mater a ddyrennir i'r arolygydd ychwanegol hwnnw.

(4) Rhaid i'r arolygydd arweiniol gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar yr ystyriaeth a roddwyd i—

(a) y materion y mae'r arolygydd arweiniol wedi eu hystyried; a

(b) y materion a ddyrannwyd i'r arolygwyr ychwanegol i'w hystyried.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r arolygydd arweiniol ar un achlysur neu ragor ar ôl penodi'r arolygydd arweiniol.

(6) Mae'r argymhellion y caiff yr arolygydd arweiniol eu gwneud yn dilyn rhoi cyfarwyddyd yn cynnwys, yn enwedig, argymhelliad i amrywio nifer yr arolygwyr ychwanegol.

(7) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i benodi arolygydd ychwanegol yn cynnwys pŵer i ddirymu penodiad.

(8) Caniateir amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn drwy gyfarwyddyd dilynol.

Penodi cynghorydd technegol

8.—(1) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod dystiolaeth sydd i'w chyflwyno i'r ymchwiliad yn dystiolaeth o'r fath natur dechnegol neu wyddonol y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn fwy effeithlon ac yn fwy hwylus pe bai asesiad arbenigol ac annibynnol o'r dystiolaeth honno yn cael ei gynnal, neu'n debygol o fod yn dystiolaeth o'r fath, caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg benodi cynghorydd technegol at y diben hwnnw.

(2) Cynghorydd technegol yw person y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod ganddo'r cymwysterau hynny a'r profiad hwnnw i alluogi'r cynghorydd technegol i gynnal asesiad arbenigol o'r dystiolaeth wyddonol neu dechnegol sydd i'w chyflwyno i'r ymchwiliad.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi cynghorydd technegol, cânt ei gwneud yn ofynnol yn ysgrifenedig i'r ceisydd gyhoeddi drwy hysbyseb leol ac o fewn unrhyw gyfnod a bennir ganddynt, hysbysiad sy'n datgan enw'r person a benodir felly ac yn pennu'r dystiolaeth sydd i'w hasesu.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiad o dan baragraff (3), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r ceisydd gydymffurfio â'r paragraff hwnnw rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r hysbysiad hwnnw ar wefan.

(5) Rhaid i'r cynghorydd technegol, drwy ymgynghori naill ai ar y cyd neu'n unigol â'r personau sydd â hawl i ymddangos, asesu'r dystiolaeth a bennir felly, a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar yr asesiad hwnnw i'r arolygydd.

(6) Rhaid i adroddiad y cynghorydd technegol gynnwys disgrifiad o unrhyw feysydd lle ceir anghytundeb rhwng y partïon a rhaid iddo ddatgan barn y cynghorydd technegol ynghylch pa mor arwyddocaol yw pob anghytundeb o'r fath.

(7) Rhaid i'r arolygydd gylchredeg adroddiad y cynghorydd technegol o fewn saith niwrnod o'i gael.

(8) Rhaid i'r cynghorydd technegol roi tystiolaeth ynghylch ei adroddiad yn yr ymchwiliad, ac mae'n ddarostyngedig i gael ei groesholi i'r un graddau ag unrhyw dyst arall.

(9) Caiff yr arolygydd ganiatáu i'r cynghorydd technegol newid ei adroddiad, neu ychwanegu ato, i'r graddau a all fod yn angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad; ond rhaid i'r arolygydd (drwy ohirio'r ymchwiliad os oes angen) roi cyfle digonol i bob person arall sydd â hawl i ymddangos gerbron yr ymchwiliad sy'n ymddangos, ystyried unrhyw newid neu ychwanegiad o'r fath.

Cyfyngu

9.—(1) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru—

- (a) bod diffyg cytundeb rhwng personau sydd â hawl i ymddangos ynghylch mater sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;
- (b) y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn fwy effeithlon ac yn fwy hwylus pe baent yn gallu dod i gytundeb mewn perthynas â'r mater hwnnw, neu y gellid diffinio a chyfyngu unrhyw anghytundeb mewn perthynas ag ef; ac
- (c) y gellir cyflawni'r canlyniad hwnnw drwy gyfyngu,

yna cânt ar unrhyw adeg benodi cyfyngwr at y diben hwnnw.

(2) Rhaid i gyfyngwr fod yn berson yr ymddengys i Weinidogion Cymru ei fod wedi ei hyfforddi mewn technegau cyfyngu gan sefydliad cyfyngu annibynnol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi cyfyngwr, cânt ei gwneud yn ofynnol yn ysgrifenedig i'r ceisydd gyhoeddi drwy hysbyseb leol ac o fewn unrhyw gyfnod a bennir ganddynt hysbysiad sy'n datgan enw'r person a benodir felly, a'r mater y mae'r person hwnnw i gyfyngu mewn perthynas ag ef.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiad o dan baragraff (3), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r ceisydd gydymffurfio â'r paragraff hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r hysbysiad hwnnw ar wefan.

(5) Rhaid i'r cyfyngwr bennu'r weithdrefn gyfyngu.

(6) O fewn saith niwrnod ar ôl i'r cyfyngu ddod i ben, rhaid i'r cyfyngwr gyflwyno adroddiad i'r arolygydd yn disgrifio'r weithdrefn gyfyngu a chanlyniad y weithdrefn honno, a rhaid i'r arolygydd,

cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei gael, anfon yr adroddiad at y personau sydd â hawl i ymddangos.

Mae'r Cynllun yn gymwys o 1 Ebrill 2019 mewn perthynas â'r holl atebolrwyddau o fewn ei gwmpas. Golyga hyn, o'r dyddiad hwnnw, y cwmpesir aelodau a chontractwyr o dan y Cynllun yn awtomatig mewn perthynas ag atebolrwyddau o'r fath.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu indemniad esgeuluster clinigol i ddarparwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol. Bydd y cynllun yn cwmpasu pob ymarferydd cyffredinol contractiol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes meddygol cyffredinol y GIG.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi, ym mharagraff 6:

"A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for this instrument as it imposes no costs or no savings, or negligible costs or savings on the public, private or charities and voluntary sectors."

O ystyried arwyddocâd y Rheoliadau hyn, byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol (ac ar ba eithriad yng "Nghod Asesiad Effaith



Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth" y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu i beidio â chynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb y llywodraeth i'r pwynt craffu ar rinweddau sy'n codi yn yr adroddiad hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

12 Mawrth 2019



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 422 (Cy. 97)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Cynllun Esgeuluster
Clinigol) (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ("y Cynllun"). Mae'r Cynllun yn galluogi aelodau sy'n arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru i wneud darpariaeth ar gyfer bodloni atebolrwyddau y mae'r Cynllun yn gymwys iddynt. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) 1996 (O.S. 1996/251).

Mae rheoliad 3 yn nodi diben y Cynllun ac yn darparu y caiff ei weinyddu gan Weinidogion Cymru. Mae rheoliad 4 yn rhestru'r cyrff sy'n gymwys i ddod yn aelodau ac mae rheoliad 5 yn nodi'r weithdrefn i gyrff cymwys ddod yn aelod. Caiff unrhyw gorff sydd wedi bod yn aelod am o leiaf 3 blynedd ganslo ei aelodaeth o dan rheoliad 6. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru ganslo aelodaeth corff yn unol â rheoliad 7 ar seiliau sy'n cynnwys peidio â thalu cyfraniad aelod at y Cynllun.

Mae rheoliadau 8 a 9 yn nodi'r atebolrwyddau y mae'r Cynllun yn gymwys iddynt. Mae rheoliad 8 yn darparu bod y Cynllun yn gymwys i atebolrwyddau contractiol ac atebolrwyddau mewn camwedd sydd ar aelod i drydydd parti mewn cysylltiad ag anaf personol neu golled sy'n deillio o weithredoedd neu anweithredoedd esgeulus wrth arfer swyddogaethau gwasanaeth iechyd penodedig yr aelod. O dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 9, mae'r Cynllun hefyd yn gymwys i atebolrwyddau mewn esgeuluster sydd ar gorff nad yw'n aelod i drydydd partiön ac y trinnir aelodau'r Cynllun fel pe baent yn atebol

amdanynt. Mae rheoliad 9 yn darparu bod yr aelod o'r Cynllun i'w drin fel pe bai'n atebol mewn cysylltiad ag atebolrwyddau esgeuluster a gododd tra oedd cyrff nad ydynt yn aelodau yn darparu gwasanaethau iechyd perthnasol o dan drefniant ag aelod o Gynllun.

Mae rheoliadau 10 i 12 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfrifo (ac o dan amgylchiadau penodol diwygio) symiau y mae'n ofynnol i aelodau eu cyfrannu at ddibenion y Cynllun, ac maent yn nodi pa bryd y mae rhaid i'r cyfraniadau hynny gael eu gwneud.

Mae rheoliadau 13 i 18 yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae Gweinidogion Cymru i wneud taliadau o dan y Cynllun i aelodau neu ar ran aelodau. Mae rheoliad 13 yn ymdrin â thaliadau mewn cysylltiad ag atebolrwyddau aelodau, mae rheoliad 14 yn ymdrin â thaliadau mewn cysylltiad ag atebolrwyddau cyn-aelodau mewn cysylltiad â digwyddiadau sy'n digwydd yn ystod aelodaeth ac mae rheoliad 15 yn pennu'r amgylchiadau y mae unrhyw atebolrwyddau o'r fath wedi eu heithrio odanynt. Mae rheoliad 16 yn cymhwyso rheoliadau 13 i 15 gydag addasiadau i'r achosion pan fo aelodau penodedig o'r Cynllun yn cael eu trin fel pe baent yn atebol mewn cysylltiad ag atebolrwyddau esgeuluster sydd gan eraill (fel y'u nodir yn rheoliad 9). Penderfynir ar y symiau sydd i'w talu yn unol â rheoliad 17 a cheir darpariaeth ar gyfer gwneud taliadau ar gyfrif yn rheoliad 18.

Mae rheoliad 19 yn nodi'r gofynion i aelodau ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion y Cynllun. Mae rheoliad 20 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi ar gael i gyrff cymwys unrhyw gyfarwyddydau neu ganllawiau y mae Gweinidogion Cymru yn eu rhoi i unrhyw gorff a gyfarwyddir i weinyddu'r Cynllun ar ran Gweinidogion Cymru. Mae rheoliad 21 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/478 (Cy. 48)). Mae rheoliad 22 yn dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) 1996.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 422 (Cy. 97)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Cynllun Esgeuluster
Clinigol) (Cymru) 2019

Gwnaed 4 Mawrth 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 5 Mawrth 2019

Yn dod i rym 1 Ebrill 2019

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 30, 47(1) and (2), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “aelod” (“*member*”) yw corff cymwys sy'n aelod o'r Cynllun;

ystyr “blwyddyn aelodaeth” (“*membership year*”), mewn cysylltiad ag unrhyw gorff cymwys, yw unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill y mae'r corff yn aelod o'r Cynllun ynddo;

(1) 2006 p. 42. Diwygiwyd adran 30 gan adran 166 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) a pharagraff 1 o Atodlen 15(1) iddi; a chan adran 306(4) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7) a pharagraff 22 o Atodlen 7 iddi.

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o’r Ddeddf;

ystyr “corff cymwys” (“*eligible body*”) yw corff a bennir yn rheoliad 4;

ystyr “y Cynllun” (“*the Scheme*”) yw’r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau’r GIG a’r Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu gan reoliad 3;

ystyr “darparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol” (“*primary medical services provider*”) yw’r person sydd wedi ymrwymo i gontract i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn unol ag adran 41(2)(b), 42 neu 50 o’r Ddeddf;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “gwasanaethau iechyd perthnasol” (“*relevant health services*”) yw gwasanaethau iechyd sylfaenol a ddarperir yng Nghymru at ddibenion y gwasanaeth iechyd;

ystyr “gwasanaethau meddygol sylfaenol” (“*primary medical services*”) yw gwasanaethau iechyd a ddarperir o dan gontract, trefniant neu gytundeb a wneir o dan neu yn rhinwedd yr adrannau a ganlyn o’r Ddeddf—

- (a) adran 41(2) (gwasanaethau meddygol sylfaenol);
- (b) adran 42(1) (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol);
- (c) adran 50 (trefniadau gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol);

ystyr “swyddogaeth berthnasol” (“*relevant function*”) yw—

- (a) trefnu ar gyfer darparu gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd(1);
- (b) darparu gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd;
- (c) arfer swyddogaethau mewn perthynas â’r gwasanaeth iechyd;
- (d) darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol;
- (e) arfer pwerau o dan neu yn rhinwedd adran 7 o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988(2);

(1) Diffinnir “the health service” yn adran 206(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae’r swyddogaethau hynny yn arferadwy, o ran Cymru, gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

- (f) arfer pwerau o dan adran 169 o'r Ddeddf neu baragraffau 19 ac 20 o Atodlen 3 iddi;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG" ("*NHS Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 18(2) o'r Ddeddf.

Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol

3.—(1) Mae cynllun wedi ei sefydlu drwy hyn, sydd i'w alw'n Gynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol.

(2) Diben y Cynllun yw galluogi corff cymwys i wneud darpariaeth i fodloni atebolrwyddau y mae'r Cynllun yn gymwys iddynt.

(3) Dim ond os yw corff cymwys yn aelod o'r Cynllun y caiff gymryd rhan yn y Cynllun.

(4) Mae'r Cynllun i'w weinyddu gan Weinidogion Cymru.

Cyrff cymwys

4. Y cyrff sy'n gymwys i fod yn aelod o'r Cynllun yw—

- (a) Ymddiriedolaeth GIG, neu
- (b) Bwrdd Iechyd Lleol.

Aelodaeth o'r Cynllun

5.—(1) Caiff corff cymwys wneud cais i Weinidogion Cymru i ddod yn aelod o'r Cynllun.

(2) Rhaid i gais a wneir yn unol â pharagraff (1)—

- (a) cael ei wneud yn ysgrifenedig,
- (b) cael ei wneud ar unrhyw ffurf a chael ei gyflwyno mewn unrhyw fodd sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru,
- (c) pennu dyddiad y mae'r corff cymwys yn cynnig y dylai ei aelodaeth ddechrau, a
- (d) cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru neu gael ei gyflwyno gyda'r wybodaeth honno.

(3) Ar unrhyw adeg ar ôl cael cais a chyn penderfynu arno, caiff Gweinidogion Cymru ysgrifennu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddibenion penderfynu ar y cais.

(4) Mae'r wybodaeth a all fod yn ofynnol yn unol â pharagraffau (2) a (3) yn cynnwys—

- (a) natur swyddogaethau'r ceisydd;

- (b) nifer y cyflogeion a'r contractwyr;
- (c) cymwysterau a phrofiad y cyflogeion hynny a'r contractwyr hynny;
- (d) manylion unrhyw hawliadau blaenorol y mae'r ceisydd wedi bod yn ddiffynnydd ynddynt mewn cysylltiad â hawliadau anaf personol a wnaed o ganlyniad i arfer unrhyw swyddogaeth berthnasol;
- (e) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani at ddibenion penderfynu ar y cais.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) o fewn 6 wythnos i gael cais a wnaed yn unol â'r gofynion ym mharagraffau (2) a (3), benderfynu ai i'w ganiatáu ai peidio, a
- (b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi gwybod i'r ceisydd am y penderfyniad drwy hysbysiad ysgrifenedig y mae rhaid iddo, os caniateir y cais, bennu'r dyddiad y mae aelodaeth y ceisydd i ddechrau arno.

(6) Wrth benderfynu ai i ganiatáu cais, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

- (a) yr wybodaeth a ddarperir gan y ceisydd, a
- (b) unrhyw ffactorau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol.

(7) Pan fo cais corff cymwys wedi ei ganiatáu, mae aelodaeth y corff hwnnw o'r Cynllun yn dechrau ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad a roddir yn unol â pharagraff (5)(b).

(8) At ddibenion paragraff (4)(b) ac (c), mae'r cyfeiriad at "contractwyr" i'w ddehongli yn unol â rheoliad 9(2).

Canslo aelodaeth gan aelod

6.—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys ond mewn perthynas ag unrhyw aelod sydd wedi bod yn aelod o'r Cynllun am o leiaf 3 blynedd aelodaeth yn olynol.

(2) Caiff aelod o'r Cynllun ganslo ei aelodaeth o'r Cynllun drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ei fod yn canslo ei aelodaeth.

(3) Pan fo hysbysiad o dan baragraff (2)—

- (a) wedi ei roi cyn 1 Medi mewn blwyddyn aelodaeth, mae'r hysbysiad yn cymryd effaith ar ddiwedd y flwyddyn aelodaeth honno;
- (b) wedi ei roi ar neu ar ôl 1 Medi mewn blwyddyn aelodaeth, mae'r hysbysiad yn cymryd effaith ar ddiwedd y flwyddyn aelodaeth ganlynol.

Canslo aelodaeth gan Weinidogion Cymru

7.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganslo aelodaeth aelod o'r Cynllun o dan unrhyw rai o'r amgylchiadau a bennir ym mharagraffau (2) i (4).

(2) Yr amgylchiadau a bennir yn y paragraff hwn yw pan fo'r aelod yn atebol i wneud taliad i Weinidogion Cymru o dan reoliad 11 (dyletswydd aelodau i wneud cyfraniadau at y Cynllun) a bo'r taliad hwnnw yn parhau i fod heb ei dalu am gyfnod o 28 o ddiwrnodau neu ragor sy'n dechrau â'r dyddiad y daeth y taliad yn ddyledus.

(3) Yr amgylchiadau a bennir yn y paragraff hwn yw pan fo'r aelod wedi methu â darparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol o dan reoliad 19 (dyletswydd aelodau i ddarparu gwybodaeth)—

- (a) cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn gofyn am yr wybodaeth, neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru yn caniatáu yn ysgrifenedig gyfnod pellach ar gyfer darparu'r wybodaeth honno, cyn diwedd y cyfnod pellach hwnnw.

(4) Yr amgylchiadau a bennir yn y paragraff hwn yw pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cael effaith niweidiol ar weinyddu'r Cynllun yn effeithlon neu fuddiannau aelodau eraill i'r aelod barhau'n aelod o'r Cynllun.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r aelod drwy hysbysiad ysgrifenedig fod ei aelodaeth o'r Cynllun i beidio gydag effaith o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad ac—

- (a) pan fo'r canslo o dan amgylchiadau a bennir ym mharagraff (2), (3) neu (4)—
 - (i) ni chaiff y dyddiad sydd i'w bennu fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, ond
 - (ii) caiff Gweinidogion Cymru benderfynu peidio â chanslo'r aelodaeth drwy roi i'r aelod hysbysiad ysgrifenedig pellach i'r perwyl hwnnw.

Atebolrwyddau aelodau

8.—(1) Mae'r Cynllun yn gymwys i—

- (a) unrhyw atebolrwydd mewn camwedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr sydd ar aelod o'r Cynllun i drydydd parti mewn cysylltiad ag anaf personol neu golled, neu o ganlyniad i anaf personol neu golled, a bennir ym mharagraff (2), a
- (b) unrhyw atebolrwydd contractiol gan aelod o'r Cynllun—

- (i) sy'n codi o ganlyniad i drefniant i ddarparu gwasanaethau iechyd perthnasol y cyfeirir atynt yn rheoliad 9(2), a
- (ii) sydd wedi ei bennu'n atebolrwydd cymhwysol contractwr yn rheoliad 9(4).

(2) Yr anaf personol neu'r golled y cyfeirir ato neu ati ym mharagraff (1) yw anaf personol neu golled sy'n codi o unrhyw dor dyletswydd gofal neu mewn cysylltiad â thor dyletswydd gofal—

- (a) sydd ar yr aelod i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwneud diagnosis o unrhyw salwch neu ofal neu driniaeth unrhyw glaf, a
- (b) sydd o ganlyniad i unrhyw weithred neu anweithred a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y weithred neu'r anweithred y cyfeirir ati ym mharagraff (2) yw gweithred neu anweithred i weithredu ar ran—

- (a) person y mae'r aelod wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen mewn cysylltiad ag unrhyw swyddogaeth berthnasol a ddarperir gan yr aelod, neu
- (b) cyflogai neu asiant i berson y mae'r aelod wedi ei gymryd ymlaen mewn cysylltiad â darparu unrhyw swyddogaeth berthnasol.

Atebolrwyddau eraill y trinnir aelodau fel pe baent yn atebol amdanynt

9.—(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr “darparwr gwasanaethau iechyd” yw Ymddiriedolaeth GIG, Bwrdd Iechyd Lleol neu ddarparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol.

(2) Mae'r Cynllun yn gymwys i atebolrwyddau cymhwysol darparwr gwasanaethau iechyd nad yw'n aelod o'r Cynllun (“y contractwr”) pan fo'r gwasanaethau iechyd perthnasol a ddarperir ganddo yn destun trefniant rhyngddo ef a darparwr gwasanaethau iechyd arall sy'n aelod o'r Cynllun.

(3) Mae'r atebolrwyddau cymhwysol y mae'r Cynllun yn gymwys iddynt o dan baragraff (2) i'w trin at ddibenion y Cynllun a'r Rheoliadau hyn fel pe baent yn atebolrwyddau gan y darparwr gwasanaethau iechyd sy'n aelod o'r Cynllun ac a ymrwymodd i'r trefniant.

(4) Atebolrwyddau cymhwysol contractwr yw unrhyw atebolrwydd mewn camwedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr—

- (a) sydd ar y contractwr i drydydd parti mewn cysylltiad ag anaf personol neu golled, neu o ganlyniad i anaf personol neu golled, fel y'i pennir ym mharagraff (5), a

- (b) sydd o ganlyniad i'r trefniant y cyfeirir ato ym mharagraff (2).

(5) Yr anaf personol neu'r golled y cyfeirir ato neu ati ym mharagraff (4)(a) yw anaf personol neu golled sy'n codi o unrhyw dor dyletswydd gofal neu mewn cysylltiad ag unrhyw dor dyletswydd gofal—

- (a) sydd ar y contractwr i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwneud diagnosis o unrhyw salwch neu ofal neu driniaeth unrhyw glaf, a
- (b) sydd o ganlyniad i unrhyw weithred neu anweithred a bennir ym mharagraff (6).

(6) Yr weithred neu'r anweithred y cyfeirir ati ym mharagraff (5)(b) yw gweithred neu anweithred i weithredu mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau iechyd perthnasol ar ran—

- (a) y contractwr,
- (b) person sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y contractwr, neu
- (c) cyflogai neu asiant i berson sydd wedi ei gymryd ymlaen gan y contractwr.

Penderfynu ar symiau sy'n daladwy gan aelodau

10.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y swm y mae rhaid i bob aelod o'r Cynllun ei dalu i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â phob blwyddyn aelodaeth.

(2) Wrth benderfynu ar y swm ym mharagraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw aelod ("A"), caiff Gweinidogion Cymru roi sylw i—

- (a) amcangyfrif Gweinidogion Cymru o'r cyfanswm sydd, yn rhinwedd rheoliad 13 (taliadau allan o'r Cynllun), yn debygol o fod yn daladwy yn ystod y flwyddyn aelodaeth honno mewn cysylltiad â'r holl atebolrwyddau y mae'r Cynllun yn gymwys iddynt;
- (b) natur swyddogaethau perthnasol A;
- (c) nifer cyflogeion a chontractwyr A sydd wedi eu cymryd ymlaen er mwyn i A gyflawni swyddogaeth berthnasol neu unrhyw ran o swyddogaeth berthnasol;
- (d) cymwysterau a phrofiad y cyflogeion hynny a'r contractwyr hynny;
- (e) unrhyw gytundeb mewn cysylltiad ag A sy'n dod o fewn rheoliad 13(3)(c) (cytundeb bod y Cynllun i gwmpasu hawliad yn y dyfodol mewn cysylltiad ag atebolrwydd a dynnir cyn i aelodaeth ddechrau);
- (f) unrhyw gytundeb mewn cysylltiad ag A sy'n dod o fewn rheoliad 13(5)(c) (cytundeb bod y Cynllun i gwmpasu hawliad presennol nad yw wedi ei fodloni cyn i aelodaeth beidio);

- (g) unrhyw gytundeb mewn cysylltiad ag A sy'n dod o fewn rheoliad 14(2)(a) (cytundeb wrth dalu cyfraniad ychwanegol fod y Cynllun i gwmpasu hawliad mewn cysylltiad ag atebolrwydd a dynnir cyn i aelodaeth beidio);
- (h) asesiad Gweinidogion Cymru o—
 - (i) effeithiolrwydd tebygol unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd, neu sydd i'w cymryd, gan A o ran y modd y mae A yn arfer unrhyw swyddogaeth berthnasol at ddiben lleihau'r achosion o atebolrwydd mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny y mae'r Cynllun yn gymwys iddynt, a
 - (ii) effeithiolrwydd unrhyw gamau sydd eisoes wedi eu cymryd at y diben hwnnw;
- (i) unrhyw ffactor arall sy'n ymwneud ag A neu unrhyw aelod arall o'r Cynllun y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn berthnasol i'r penderfyniad o dan baragraff (1).

(3) Mewn cysylltiad â phob blwyddyn aelodaeth, rhaid i Weinidogion Cymru roi i bob aelod hysbysiad ysgrifenedig sy'n pennu'r swm y penderfynir arno mewn cysylltiad â'r aelod hwnnw yn unol â pharagraff (1).

(4) Ac eithrio fel y'i datgenir ym mharagraff (5), rhaid i hysbysiad a roddir yn unol â pharagraff (3) gael ei roi heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr yn y flwyddyn aelodaeth cyn y flwyddyn aelodaeth y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.

(5) Yn achos unrhyw aelod a dderbynnir i'r Cynllun—

- (a) rhaid i'r hysbysiad mewn cysylltiad â'r flwyddyn aelodaeth gyntaf gael ei roi heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael cais yr aelod yn unol â rheoliad 5 (aelodaeth o'r Cynllun), a
- (b) rhaid i'r hysbysiad mewn cysylltiad â'r ail flwyddyn aelodaeth gael ei roi heb fod yn hwyrach na 1 Gorffennaf yn y flwyddyn aelodaeth honno.

(6) At ddibenion paragraff (2)(c) a (d), mae cyfeiriad at "contractwyr" i'w ddehongli yn unol â rheoliad 9(2).

(7) At ddibenion paragraff (5), mae'r cyfeiriad at "blwyddyn aelodaeth gyntaf" corff sy'n aelod o'r Cynllun yn gyfeiriad at y cyfan neu ran o unrhyw flwyddyn aelodaeth yn union ar ôl unrhyw gyfnod nad oedd y corff yn aelod ynddo.

Dyletswydd aelodau i wneud cyfraniadau at y Cynllun

11.—(1) Rhaid i bob aelod o'r Cynllun, mewn cysylltiad â phob blwyddyn aelodaeth, dalu i Weinidogion Cymru y swm y penderfynir arno mewn cysylltiad â'r aelod o dan reoliad 10(1) (penderfynu ar symiau sy'n daladwy gan aelodau).

(2) Ac eithrio fel y'i datgenir ym mharagraff (3), rhaid i aelod sy'n cael hysbysiad o dan reoliad 10(3) o'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn aelodaeth dalu'r swm sy'n ddyledus—

- (a) yn unol ag unrhyw drefniant y mae Gweinidogion Cymru a'r aelod yn cytuno arno (a gaiff gynnwys taliad mewn rhandaliadau sydd i'w gwneud ar adegau y cytunir arnynt);
- (b) os na ddeuir i gytundeb erbyn 1 Mawrth yn union cyn dechrau'r flwyddyn aelodaeth, erbyn unrhyw amser ac mewn unrhyw fodd y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.

(3) Pan fo aelod sydd wedi ei dderbyn i'r Cynllun yn cael hysbysiad o dan reoliad 10(3) mewn cysylltiad â blwyddyn aelodaeth, rhaid i'r aelod dalu—

- (a) y swm sy'n ddyledus mewn cysylltiad â'r flwyddyn aelodaeth gyntaf heb fod yn hwyrach nag 8 mis ar ôl y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael cais yr aelod o dan reoliad 5 (aelodaeth o'r Cynllun), a
- (b) y swm sy'n ddyledus mewn cysylltiad â'r ail flwyddyn aelodaeth heb fod yn hwyrach na 1 Awst yn y flwyddyn aelodaeth honno.

(4) At ddibenion paragraff (3), mae'r cyfeiriad at "blwyddyn aelodaeth gyntaf" corff sy'n aelod o'r Cynllun i'w ddehongli yn unol â rheoliad 10(7).

Diwygio penderfyniad ar swm taladwy

12.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn nodi, cyn diwedd blwyddyn aelodaeth, o ran y swm y penderfynwyd ganddynt yn unol â rheoliad 10(1) ei fod yn daladwy gan yr aelod mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno—

- (a) ei fod wedi ei gyfrifo'n anghywir,
- (b) y penderfynwyd arno drwy gyfeirio at wybodaeth a oedd yn anghywir, neu
- (c) y dylid ei ailystyried yng ngoleuni gwybodaeth bellach sydd wedi dod ar gael i Weinidogion Cymru.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) rhaid iddynt ailystyried y swm y penderfynwyd arno, a

- (b) ar unrhyw adeg cyn diwedd y flwyddyn aelodaeth o dan sylw, cânt ddiwygio'r swm sy'n daladwy gan yr aelod mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi i'r aelod hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw swm diwygiedig y penderfynir arno yn unol â pharagraff (2)(b) a rhaid i'r aelod dalu unrhyw swm sy'n parhau i fod yn ddyledus mewn cysylltiad â'r flwyddyn aelodaeth—

- (a) yn unol ag unrhyw drefniadau y mae Gweinidogion Cymru a'r aelod yn cytuno arnynt (a gaiff gynnwys taliad mewn rhandaliadau sydd i'w gwneud ar adegau y cytunir arnynt), a
- (b) os na ddeuir i gytundeb erbyn diwedd y flwyddyn aelodaeth, erbyn unrhyw amser ac mewn unrhyw fodd y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.

(4) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at swm y penderfynir arno gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 10(1) yn cynnwys unrhyw swm diwygiedig y penderfynir arno yn unol â pharagraff (2)(b).

Taliadau allan o'r Cynllun: atebolrwyddau aelodau

13.—(1) Pan fo taliad yn dod i'w wneud gan aelod o'r Cynllun o ran hawliad mewn cysylltiad ag atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo, caiff Gweinidogion Cymru dalu i'r aelod, neu ar ran yr aelod, swm y penderfynir arno yn unol â rheoliad 17.

(2) Ni chaniateir i unrhyw daliad gael ei wneud o dan baragraff (1)—

- (a) mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwydd gan yr aelod sydd wedi ei eithrio o'r Cynllun gan unrhyw un neu ragor o baragraffau (3) i (5), neu
- (b) mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwydd neu daliad gan yr aelod sydd wedi ei eithrio o'r Cynllun gan reoliad 15 (eithriadau).

(3) Mae unrhyw atebolrwydd a dynnwyd gan gorff cymwys cyn iddo ddod yn aelod o'r Cynllun wedi ei eithrio o'r Cynllun oni bai—

- (a) bod yr hawliad yn erbyn y corff cymwys mewn cysylltiad â'r atebolrwydd wedi ei wneud ar ôl dechrau ei aelodaeth o'r Cynllun,
- (b) bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y corff cymwys wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod cymhwysol fod yr hawliad wedi ei wneud,
- (c) bod Gweinidogion Cymru wedi cytuno cyn dechrau aelodaeth y corff cymwys na ddylid eithrio o'r Cynllun unrhyw atebolrwydd gan y corff sydd o ganlyniad i hawliad y mae is-baragraffau (a) a (b) yn gymwys iddo, a

- (d) bod y cytundeb hwnnw wedi parhau mewn grym ar y dyddiad y mae'r hawliad yn erbyn y corff cymwys yn dod i'w fodloni.

(4) Mae unrhyw atebolrwydd gan aelod sy'n dod i'w fodloni ar ôl i'r aelod roi hysbysiad o ganslo o dan reoliad 6(2) (canslo aelodaeth gan aelod) ond cyn i'r aelodaeth beidio wedi ei eithrio o'r Cynllun oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai'r atebolrwydd wedi dod i'w fodloni ar yr adeg honno er gwaethaf penderfyniad yr aelod i roi hysbysiad o'r fath.

(5) Mae unrhyw atebolrwydd gan gorff cymwys sy'n dod i'w fodloni ar ôl i'w aelodaeth o'r Cynllun beidio wedi ei eithrio o'r Cynllun oni bai—

- (a) bod yr hawliad yn erbyn y corff cymwys mewn cysylltiad â'r atebolrwydd wedi ei wneud cyn i aelodaeth y corff beidio,
- (b) bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y corff cymwys wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod cymhwysol fod yr hawliad wedi ei wneud,
- (c) bod Gweinidogion Cymru wedi cytuno cyn i aelodaeth y corff cymwys beidio na ddylid eithrio o'r Cynllun unrhyw atebolrwydd gan y corff sydd o ganlyniad i hawliad y mae is-baragraffau (a) a (b) yn gymwys iddo, a
- (d) bod y cytundeb hwnnw wedi parhau mewn grym ar y dyddiad y peidiodd aelodaeth y corff cymwys.

(6) Ym mharagraffau (3)(b) a (5)(b), y "cyfnod cymhwysol" yw'r cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y daeth yr aelod yn ymwybodol bod hawliad wedi ei wneud neu, os yw'n gynharach, y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylai'r aelod fod wedi dod yn ymwybodol bod hawliad wedi ei wneud.

Taliadau allan o'r Cynllun: atebolrwyddau cyn-aelodau

14.—(1) Pan—

- (a) bo taliad yn dod i'w wneud gan gorff cymwys ("C") sydd, ar unrhyw adeg, wedi bod yn aelod o'r Cynllun mewn cysylltiad â hawliad o ran atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo, a
- (b) bo'r hawliad yn ymwneud â thor dyletswydd gofal gan C tra oedd yn aelod o'r Cynllun,

caiff Gweinidogion Cymru, os yw'r amodau a bennir ym mharagraff (2) wedi eu bodloni, dalu i C neu ar ran C swm y penderfynir arno gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 17.

(2) Yr amodau yw—

- (a) cyn i aelodaeth C o'r Cynllun beidio, fod Gweinidogion Cymru yn cytuno ag C, mewn cysylltiad â'r flwyddyn aelodaeth yn union cyn i aelodaeth C beidio, fod y swm sydd i'w dalu gan C o dan reoliad 11 (dyletswydd aelodau i wneud cyfraniadau at y Cynllun) hefyd i gynnwys swm ychwanegol y penderfynir arno at ddibenion y rheoliad hwn,
- (b) bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod y swm hwnnw yn ddigonol i fodloni unrhyw atebolrwyddau gan C sy'n dod o fewn paragraff (1) a dynnwyd tra oedd C yn aelod ond sy'n dod i'w bodloni ar ôl y dyddiad y mae aelodaeth C yn peidio, ac
- (c) cyn y dyddiad hwnnw, fod C naill ai'n talu'r swm ychwanegol yn llawn neu'n ymrwymo i gytundeb â Gweinidogion Cymru i'w dalu mewn rhandaliadau.

(3) Ni chaniateir i unrhyw daliad gael ei wneud o dan baragraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwydd neu daliad gan C sydd wedi ei eithrio o'r Cynllun gan reoliad 15 (eithriadau).

Eithriadau

15.—(1) Ac eithrio i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt, mae'r canlynol wedi eu heithrio o'r Cynllun—

- (a) unrhyw atebolrwydd a gyfaddefir gan aelod heb gael cydsyniad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru yn gyntaf;
- (b) unrhyw atebolrwydd y penderfynir arno gan Lys mewn achos a gynhelir gan aelod ac eithrio gan ymgynghori â Gweinidogion Cymru;
- (c) unrhyw daliad sy'n dod i'w wneud gan aelod pan na fo'r aelod wedi cydymffurfio ag unrhyw amod a osodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â hawliad;
- (d) unrhyw daliad sy'n dod i'w wneud gan aelod, pan fo'r aelod, heb gael cydsyniad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru yn gyntaf, yn cytuno—
 - (i) i gael ei rwymo gan benderfyniad gan unrhyw berson neu gorff o ran gwneud taliad gan yr aelod hwnnw mewn cysylltiad ag atebolrwydd, neu
 - (ii) i wneud unrhyw daliad arall mewn cysylltiad â'r atebolrwydd ac eithrio yng nghwrs achos cyfreithiol neu o ganlyniad i setliad mewn achos cyfreithiol y mae'r aelod yn cytuno arno;
- (e) unrhyw atebolrwydd sydd o swm sy'n llai na'r swm y mae aelod a Gweinidogion Cymru

yn cytuno, am y tro, mai hwnnw yw isafswm unrhyw atebolrwydd y mae taliad i'w wneud mewn cysylltiad ag ef o dan y Cynllun;

- (f) unrhyw atebolrwydd gan ddarparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol a dynnwyd, neu sy'n dod i'w fodloni, mewn blwyddyn aelodaeth y cynhwyswyd y darparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol hwnnw mewn perthynas â hi mewn hysbysiad i Weinidogion Cymru gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

(2) Ym mharagraff (1)—

- (a) mae cyfeiriadau at “aelod” yn cynnwys cyn-aelod o'r Cynllun—
 - (i) y mae gofynion rheoliad 13(5)(c) a (d) wedi eu bodloni mewn cysylltiad ag ef (cytundeb bod y Cynllun i gwmpasu hawliad presennol nad yw wedi ei fodloni cyn i aelodaeth beidio), neu
 - (ii) y mae rheoliad 14 yn gymwys iddo (atebolrwyddau cyn-aelodau);
- (b) yn is-baragraff (f), ystyr “hysbysiad” yw rhestr o ddarparwyr gwasanaethau meddygol sylfaenol nad yw eu hatebolrwyddau cymhwysol i'w cwmpasu gan y Cynllun am y flwyddyn aelodaeth.

Taliadau allan o'r Cynllun: atebolrwyddau y trinnir aelodau fel pe baent yn atebol amdanynt

16.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i unrhyw daliad o ran hawliad mewn cysylltiad ag atebolrwydd cymhwysol sy'n dod o fewn rheoliad 9 (atebolrwyddau eraill y trinnir aelodau fel pe baent yn atebol amdanynt) pan fo'r taliad yn dod i'w wneud gan aelod o'r Cynllun a drinnir o dan reoliad 9(3) fel pe bai'n atebol mewn cysylltiad â'r hawliad.

(2) Mae rheoliadau 13 i 15 (amgylchiadau y mae taliadau i'w gwneud allan o'r Cynllun odanynt mewn cysylltiad ag atebolrwyddau aelodau a chyn-aelodau) i fod yn gymwys er mwyn galluogi i daliadau gael eu gwneud i unrhyw aelod o'r Cynllun, neu ar ei ran, mewn cysylltiad ag atebolrwyddau cymhwysol fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys mewn cysylltiad ag atebolrwyddau'r aelod ei hun.

(3) Wrth gymhwyso rheoliad 13, 14 neu 15 at ddibenion paragraff (2), mae cyfeiriadau at unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan aelod, i aelod neu yn erbyn aelod mewn cysylltiad ag atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo yn cynnwys cyfeiriadau ato'n cael ei wneud mewn cysylltiad ag atebolrwydd cymhwysol y trinnir yr aelod fel pe bai'n atebol amdano.

Penderfynu ar swm unrhyw daliad sydd i'w wneud allan o'r Cynllun

17.—(1) Mewn cysylltiad â phob atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar swm unrhyw daliad sydd i'w wneud o dan reoliad 13 neu 14 (taliadau allan o'r Cynllun mewn cysylltiad ag atebolrwyddau aelodau a chyn-aelodau).

(2) Wrth benderfynu ar swm y taliad sydd i'w wneud o dan yr amgylchiadau a bennir ym mhob un o baragraffau (3) i (8), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r materion perthnasol a bennir yn y paragraff hwnnw.

(3) Pan fo iawndal wedi ei ddyfarndalu gan Lys yn erbyn aelod, y materion perthnasol yw swm—

- (a) y dyfarndal,
- (b) y costau cyfreithiol a'r costau cysylltiedig a ddyfarndelir i'r hawlydd, ac
- (c) unrhyw gostau cyfreithiol a chostau cysylltiedig yr eir iddynt gan neu ar ran yr aelod.

(4) Pan fo achos cyfreithiol yn destun setliad y mae'r aelod yn cytuno arno, y materion perthnasol yw swm—

- (a) unrhyw swm a delir neu sy'n daladwy gan yr aelod mewn perthynas â hawliad yr hawlydd am iawndal,
- (b) cyfraniad yr aelod tuag at unrhyw gostau cyfreithiol a chostau cysylltiedig yr eir iddynt gan yr hawlydd, ac
- (c) unrhyw gostau cyfreithiol a chostau cysylltiedig yr eir iddynt gan neu ar ran yr aelod.

(5) Pan fo Llys, mewn unrhyw achosion cyfreithiol, wedi gwrthod dyfarndalu iawndal yn erbyn yr aelod, y materion perthnasol yw—

- (a) swm unrhyw gostau cyfreithiol a chostau cysylltiedig yr eir iddynt gan neu ar ran yr aelod, a
- (b) y graddau nad yw'r costau hynny yn adferadwy naill ai gan yr hawlydd neu gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol o dan reoliadau sydd wedi eu gwneud yn rhinwedd adran 26(5) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012(1) (costau mewn achosion sifil).

(6) Pan fo aelod, ac eithrio yng nghwrs achos cyfreithiol, wedi cytuno i wneud taliad er mwyn setlo hawliad, y materion perthnasol yw swm—

(1) 2012 p. 10.

- (a) y taliad y cytunir arno, a
- (b) unrhyw gostau cyfreithiol neu gostau cysylltiedig yr eir iddynt gan neu ar ran yr aelod mewn cysylltiad â'r hawliad.

(7) Pan fo aelod, ac eithrio yng nghwrs achos cyfreithiol, wedi cytuno i wneud unrhyw gyfraniad tuag at y costau cyfreithiol neu'r costau cysylltiedig yr eir iddynt gan berson mewn cysylltiad â hawliad y person hwnnw yn erbyn yr aelod mewn cysylltiad ag atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo, y materion perthnasol yw swm—

- (a) y cyfraniad hwnnw, a
- (b) unrhyw gostau cyfreithiol neu gostau cysylltiedig yr eir iddynt gan neu ar ran yr aelod mewn cysylltiad â'r hawliad.

(8) Pan fo aelod wedi cytuno i gael ei rwymo gan benderfyniad gan unrhyw berson neu gorff o ran gwneud taliad gan yr aelod hwnnw mewn cysylltiad ag atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo, y materion perthnasol yw swm—

- (a) y taliad,
- (b) unrhyw gostau cyfreithiol neu gostau cysylltiedig yr eir iddynt gan yr hawlydd mewn cysylltiad â'r hawliad, ac
- (c) unrhyw gostau cyfreithiol neu gostau cysylltiedig yr eir iddynt gan neu ar ran yr aelod mewn cysylltiad â'r hawliad.

(9) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at “aelod” i'w dehongli yn unol â rheoliad 15(2).

Pŵer i wneud taliadau ar gyfrif

18.—(1) Pan fo taliad, mewn unrhyw flwyddyn aelodaeth, yn dod i'w wneud gan aelod mewn cysylltiad â hawliad y gall swm ddod yn daladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 17 (penderfynu ar swm unrhyw daliad sydd i'w wneud allan o'r Cynllun), caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad ar gyfrif o unrhyw swm a all ddod yn daladwy.

(2) Caniateir i daliad ar gyfrif gael ei wneud i'r aelod neu ar ei ran.

(3) Pan fo swm unrhyw daliad ar gyfrif yn fwy na'r swm y penderfynir wedi hynny o dan reoliad 17 mai hwnnw yw swm y taliad sydd i'w wneud mewn cysylltiad â'r hawliad, mae'r taliad dros ben yn adferadwy gan yr aelod.

Dyletswydd aelodau i ddarparu gwybodaeth

19.—(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu gan Weinidogion Cymru mewn hysbysiad o dan baragraff (2).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig ei gwneud yn ofynnol i aelod ddarparu gwybodaeth benodedig i Weinidogion Cymru.

(3) Mae gwybodaeth benodedig yn cynnwys—

- (a) natur unrhyw swyddogaeth berthnasol a gynhelir, neu sydd i'w chynnal, gan yr aelod mewn blwyddyn aelodaeth benodedig,
- (b) nifer cyflogeion a chontractwyr yr aelod sydd wedi eu cymryd ymlaen er mwyn i'r aelod gyflawni swyddogaeth berthnasol benodedig neu mewn rhan benodedig o unrhyw swyddogaeth o'r fath,
- (c) cymwysterau a phrofiad y cyflogeion hynny a'r contractwyr hynny, a
- (d) unrhyw ddiwyddiad y mae'r aelod yn ymwybodol ohono y mae'n ystyried y gallai arwain at atebolrwydd y mae'r Cynllun yn gymwys iddo.

(4) Rhaid i'r aelod gydymffurfio â hysbysiad o dan baragraff (2) a rhaid iddo—

- (a) darparu'r wybodaeth o fewn 28 o ddiwrnodau i gael yr hysbysiad neu o fewn unrhyw gyfnod pellach y mae Gweinidogion Cymru wedi ei ganiatáu yn ysgrifenedig,
- (b) darparu'r wybodaeth ar unrhyw ffurf benodedig, ac
- (c) cyflwyno'r wybodaeth mewn unrhyw fodd penodedig.

(5) At ddibenion paragraff (3)(b) ac (c), mae'r cyfeiriad at "contractwyr" i'w ddehongli yn unol â rheoliad 9(2).

Cyfarwyddydau a chanllawiau

20.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi ar gael i gyrrff cymwys yr wybodaeth a ganlyn ar unrhyw ffurf ac ar unrhyw adegau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol⁽¹⁾—

- (a) unrhyw gyfarwyddydau y mae Gweinidogion Cymru yn eu rhoi i gorff perthnasol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r corff hwnnw ganddo mewn cysylltiad â gweinyddu'r Cynllun, a
- (b) unrhyw ganllawiau y mae Gweinidogion Cymru yn eu rhoi i gorff perthnasol o ran y modd y mae'r Cynllun i'w weinyddu.

(1) Mae'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru ar gael ar <http://www.nwssp.wales.nhs.uk> neu drwy wneud cais ysgrifenedig i: Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd, Y Tîm Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(2) Ystyr “corff perthnasol” yw corff a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(5) o’r Ddeddf i gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad â gweinyddu’r Cynllun.

Diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004

21.—(1) Mae Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 6, ym mharagraff 120—

(a) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(2A) The Local Health Board, to the extent it considers reasonable and to the extent it may be reimbursed in accordance with the Clinical Negligence Scheme for NHS Trusts and Local Health Boards established by regulation 3 of the 2019 Regulations, shall indemnify the contractor in respect of that contractor’s qualifying liabilities as specified in regulation 9(4) of the 2019 Regulations, provided the contractor—

(a) complies with the Local Health Board’s claims management protocol for contractors (as amended from time to time); and

(b) does not have any other indemnity arrangement in force in connection with clinical services which the contractor provides under the contract at the time the qualifying liability arose.”;

(b) yn is-baragraff (3)—

(i) ar ddiwedd paragraff (aa) hepgorer “and”;

(ii) yn lle paragraff (b) rhodder—

“(b) a contractor shall be regarded as having in force in relation to it an indemnity arrangement—

(i) if there is an indemnity arrangement in force in relation to a person employed or engaged by it in connection with clinical services which that person

(1) O.S. 2004/478 (Cy. 48). Diwygiwyd paragraff 120 o Atodlen 6 gan reoliad 11(33) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/358 (Cy. 46)) a pharagraff 5(a) i (e) o Atodlen 2 i Orchymyn Proffesiynau Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Trefniadau Indemniad) 2014 (O.S. 2014/1887). Mae diwygiadau eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

provides under the contract or, as the case may be, sub-contract; or

(ii) for its qualifying liabilities specified in regulation 9(4) of the 2019 Regulations, to the extent provided for under paragraph 120(2A);”;

(iii) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“(c) “the 2019 Regulations” means the National Health Service (Clinical Negligence Scheme) (Wales) Regulations 2019.”

Dirymu

22. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) 1996⁽¹⁾ wedi eu dirymu.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
4 Mawrth 2019

(1) O.S. 1996/251.

**Explanatory Memorandum to
The National Health Service (Clinical Negligence Scheme)
(Wales) Regulations 2019**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Health and Social Services Department and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The National Health Service (Clinical Negligence Scheme) (Wales) Regulations 2019

Vaughan Gething
Minister for Health and Social Services
5 March 2019

PART 1

1. Description

These Regulations make provision in connection with the Clinical Negligence Scheme for NHS Trusts and Local Health Boards in Wales (“the Scheme”). The Scheme enables members exercising functions in connection with the National Health Service in Wales to make provision for meeting liabilities to which the Scheme applies.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

None

3. Legislative background

The powers of the Welsh Ministers that are being relied upon to introduce the regulations are sections 30, 47(1), (2) and (4), and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006.

These Regulations revoke the National Health Service (Clinical Negligence Scheme) Regulations 1996 (S.I. 1996/251). These Regulations also make consequential amendments to the National Health Service (General Medical Services Contract) (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/478 (W.48)).

These Regulations are being made under the negative resolution procedure

4. Purpose and intended effect of the legislation

Clinical negligence cover is a condition of registration in the UK for all regulated healthcare professionals, and in the case of medical practitioners, a condition of licence under s.44C of the Medical Act 1983. The cover can be an insurance policy, an indemnity arrangement, or a combination of both. .

There has been concern about increasing indemnity costs, which could potentially drive GPs away from the profession, resulting in an impact on services. It is estimated that indemnity premiums have increased by 7% per year on average between 2013 and 2017. Among the factors driving the increasing cost of indemnity is an ageing population; technological innovations in medicine which keep people alive longer; an increase in people living with complex conditions and an increasing claims culture. There is no evidence to suggest that deterioration in the quality of care has acted as a driver to increase the cost of indemnity. Increases in the last two years are estimated to be over 10% in total. The rising cost of indemnity subscriptions has been cited as one of the reasons why GPs are reducing their hours, and if the trend continues, may create a further shortage of GPs.

On the 14th May 2018, the Minister for Health and Social Services announced that the Welsh Government would introduce a state backed scheme to provide clinical negligence indemnity for providers of GP services in Wales. The scheme, which is planned to come into force on 1 April 2019, will cover all contracted GPs and other health professionals working in NHS general practice.

The scheme will help to address the concerns of GPs about the affordability of professional indemnity premiums and will deliver a sustainable, long term solution to address the increasing costs of professional indemnity.

The scheme will be aligned as far as possible to the state backed scheme to be introduced for providers of GP services in England on 1 April 2019. This will ensure that GPs in Wales are not at a disadvantage relative to GPs in England, will also help to ensure that GP recruitment and cross border activity will not be adversely affected by different schemes operating in England and Wales

The Regulations establish the Clinical Negligence Scheme for NHS Trusts and Local Health Boards to provide for all qualifying liabilities, from 1 April 2019, in tort and in contract.

The indemnity provided under the Scheme covers the clinical negligence liabilities of members (Local Health Boards and NHS Trusts) as well as those of non-member contractors who provide primary medical services by virtue of an arrangement with a member of the Scheme (e.g. a general medical services contract). The Scheme applies from 1 April 2019 in respect of all liabilities within its scope. This means that, from that date, members and contractors will automatically be covered by the Scheme in relation to such liabilities.

The Scheme will provide discretionary cover in respect of liabilities in tort (under the law of England and Wales) that arise in consequence of a breach of duty of care by a member or contractor (or other person employed, engaged or employed by a person engaged by a member or contractor) which results in physical injury or loss to a person. Claims made under the Scheme are expected to consist of mainly clinical negligence claims.

The Scheme will not cover private work, complaints, involvement in coroners' cases, GMC hearings and other matters relating to professional regulation. Any provision of these services will necessitate taking out separate indemnity insurance to cover private work and the other aspects not covered by the Scheme.

In November 2018, The Minister for Health and Social Services confirmed that Shared Services Partnership – Legal and Risk Services will operate that state backed scheme for GPs in Wales (Future Liability Scheme)

This Statutory Instrument is essential to establish the Scheme and facilitate its operation.

5. Consultation

Throughout the development of the policy for the Scheme, the Welsh Government has engaged, on an ongoing basis, with key stakeholders affected by the proposed changes, arising from the implementation of a state scheme, including Medical Defence Organisations, GPs, NHS Wales Shared Services Partnership - Legal and Risk Services and NHS Wales. This engagement process included meetings and other communications with stakeholders to assist them in understanding the proposals made and to elicit their views before final decisions were made on the Scheme policy. The process has also included the establishment of a Stakeholder Reference Group.

An informal, targeted, consultation was undertaken with the draft statutory instrument shared with stakeholders between 19th and 28th February 2019. The list of stakeholders included:

- Directors of Primary Care of Local Health Boards
- Associate Medical Directors of Local Health Boards
- Medical Directors of Local Health Boards
- Finance Directors of Local Health Boards
- Directors of Nursing of Local Health Boards
- General Practitioners Committee Wales
- Royal College of General Practitioners
- GP Practice Managers
- NHS Wales Shared Services Partnership - Legal and Risk Service

Six responses were received following the informal consultation. The responses sought clarification on the following points:

(a) Whether the scheme is a “discretionary” scheme (in line with the current medical defence organisations and GP current indemnity arrangements) or whether the scheme is contractual (similar to commercial insurers) and the way in which discretion will be applied by the scheme operator (Shared Services Partnership - Legal and Risk Services)

(b) The scope of the Scheme in terms of liability in tort and contractual liability.

(c) The scope of the scheme in terms of who is covered and what activities are covered.

(d) The way in which the scheme will be funded.

(e) Clarity on the information which Local Health Boards may request from GPs.

(f) Clarity as to whether the draft Regulations would capture all of WRP activity. The Welsh Government responded to all queries, setting out the appropriate information and advising that the clarity sought will also be addressed in the Future Liability Scheme Guidance which will accompany Ministerial Directions in relation to the administration of the Scheme.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for this instrument as it imposes no costs or no savings, or negligible costs or savings on the public, private or charities and voluntary sectors.

A wide range of options were initially considered to address the issues with GP indemnity. The criteria included compatibility with primary care policy; sustainability; legal and financial risks; and transitional arrangements from the current position. The costs and benefits of each option are not presented here in detail due to the limited information that can be included because of the confidential commercial basis on which the analysis is based.

As highlighted above, the benefits of the state backed scheme help to address the concerns of GPs about the affordability of professional indemnity premiums and will deliver a sustainable, long term solution to address the increasing costs of professional indemnity. GPs will contribute towards the cost of the scheme, through the General Medical Services Contract.

This legislation has no impact on the statutory duties (sections 77-79 of the Government of Wales Act 2006) or statutory partners (sections 72-75 of that Act).

Eitem 4.15

SL(5)373 – Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Yn olaf, rydych yn codi'r pwynt bod y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn gwneud llyfr statud Cymru yn llai hygyrch. Rhaid cydnabod bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei gwneud yng nghyd-destun gadael system gyfreithiol ryngwladol hir sefydledig, a gosod system newydd ar sail y DU gyfan yn ei le, lle nad oes o reidrwydd unrhyw gytundeb o ran yr hyn fydd yn digwydd yn y tymor hwy. Rydym wedi ceisio cadw cymaint o eglurder a hygyrchedd â phosibl. Yn wir, un rheswm dros ddefnyddio OSau y DU ar gyfer systemau'r DU gyfan yw sicrhau bod y gyfraith yn fwy hygyrch drwy gael un OS ar gyfer y DU gyfan yn hytrach na phedwar OS ar wahân ar draws yr holl weinyddiaethau. Yn y pendraw, diogelu dinasyddion a busnesau fu ein blaenoriaeth. Rhan o'r broses o symud i sefyllfa newydd y byd ar ôl Brexit fydd gwella hygyrchedd ac eglurder y gyfraith tra'n rhoi'r datrysiadau tymor hwy ar waith.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru

14 Mawrth 2019

Annwyl Mark,

Rôl y Cynulliad wrth ddeddfu ar gyfer Brexit

Cytunodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ysgrifennu i gefnogi'r pryderon a fynegwyd gan y Llywydd a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Gwnaethom ystyried rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit yn ystod cam cyntaf ein gwaith fel pwyllgor, a hynny yn nhymor yr hydref 2016.

Fe wnaethom ymhelaethu ar ein safbwynt yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar ddeddfu ar gyfer Brexit, ym mis Mawrth 2017.

Bryd hynny, fe wnaethom nodi ein pryder nad oedd rôl y deddfwrfeydd datganoledig wedi cael ei hystyried yn ddigonol a bod y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit yn peri risgiau i'r setliad datganoli ac o ran rheoli'r pwerau a ddirprwywyd i Weinidogion Cymru.

Wrth ymateb i gyhoeddiad Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn nhymor yr hydref 2017, gwnaethom fynegi pryderon pellach ynghylch rôl y Cynulliad a gallu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i reoli'r broses o ddeddfu ar gyfer Brexit mewn meysydd datganoledig drwy Senedd y DU .



Er ein bod yn credu ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, gan gynnwys sicrhau y cydnabyddir rôl y deddfwrfeydd datganoledig yn y broses yn Nhŷ'r Cyffredin, ni fodlonwyd ein hamcanion ar gyfer gwella Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i roi mwy o rôl i'r Cynulliad.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi ystyried y llythyr a anfonodd y Llywydd atoch mewn perthynas â deddfu ar gyfer Brexit a rôl y Cynulliad. Roedd hyn yn cynnwys llawer o'r pryderon sydd gennym ni, fel Pwyllgor, ynghylch y ffordd y mae'r broses o ddeddfu ar gyfer Brexit wedi cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Er bod gennym efallai, ar sail eich ymateb i'r Llywydd, safbwyntiau gwahanol ynghylch rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ofyn i Senedd a Llywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan, mae'r effaith yr un fath yn y bôn, sef llai o rôl i'r Cynulliad wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod yn cyfyngu ar allu Aelodau'r Cynulliad i gyflawni'r rôl lawn y cawsant eu hethol i'w gwneud a gan ei fod yn golygu bod y penderfyniadau a wneir ynghylch cyfreithiau mewn meysydd datganoledig yn cael eu gwneud ymhell i ffwrdd o bobl Cymru. Mae'r cyfreithiau hyn, wrth gael eu pasio gan Lywodraeth y DU, yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol sy'n arwain y gwaith o graffu ar is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, rydym ninnau wedi bod â cryn ddiddordeb yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit, ac rydym yn cael diweddariadau rheolaidd gan ein swyddogion ar y cynnydd a wneir ac wrth inni graffu ar waith Gweinidogion. Mae hyn yn cynnwys monitro'r holl faterion o ran rhoi cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig â Brexit, ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud yn y Cynulliad ac yn San Steffan.

Mae adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad Cynnydd*, yn rhoi cadarnhad pellach o'r pryderon sydd gennym ynglŷn â defnyddio pwerau cydredol.



Rydym yn cymeradwyo'r adroddiad pwysig hwn ac yn ychwanegu ein bod ninnau'n cefnogi'r casgliadau a wneir.

Roeddem yn pryderu'n enwedig wrth ddysgu bod dwy set o reoliadau yn ymddangos i fod yn groes i'r Cytundeb Rhynglywodraethol gan fod Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau o dan dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 i greu polisiau newydd mewn meysydd datganoledig, yn arbennig felly o gofio'r sicrwydd a roddwyd i ni gan Weinidogion Cymru y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer newidiadau technegol yn unig.

Yr wythnos diwethaf, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Masnach. Yn yr adroddiad hwnnw, daethom i'r casgliad a ganlyn:

"Wrth i ni ystyried y newid i'r setliad datganoli, barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'n pryderon ein hunain ynghylch defnyddio pwerau cydredol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rydym wedi dod i'r casgliad bod sail dda i'n pryder gwreiddiol ynghylch darparu pwerau cydredol."

Er bod y llythyr yn canolbwyntio ar ddefnyddio pwerau cydredol yn bennaf, mae ein pryderon yn cynnwys defnyddio Biliau y DU ar gyfer deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit y gallesid bod wedi ei hystyried gan y Cynulliad.

O ran y broses cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, fel hyn y'i disgrifir yn ein hadroddiad diweddar ar y Bil Masnach:

"Nid yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu cynnil â'r ddeddfwriaeth y creffir arni. Yn hytrach, mae'n cynnig dewis syml a deuaidd rhwng rhoi caniatâd ar gyfer y darpariaethau fel y'u drafftwyd neu eu gwrthod yn llwyr."


Mae hyn yn cyferbynnu'n anffafriol â'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar Filiau y Cynulliad, hyd yn oed o dan amgylchiadau brys.



Rydym yn parhau i fonitro'r broses o ddeddfu ar gyfer Brexit ac rydym yn edrych ymlaen at drafod rhai o'r materion hyn gyda chi yn ein cyfarfod ar 25 Mawrth 2019.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is centered on a light yellow rectangular background.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Eitem 6.3



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales

SeneddEAL@assembly.wales

11 March 2019

Dear David,

I am writing to you following my appearance at the External Affairs and Additional Legislation Committee on 4 February to provide you with more detailed information about the Welsh EU Exit SI programme, the progress to date and possible future SIs relating to EU Exit.

By the week of my appearance, 29 proposed negative procedure statutory instruments had been laid before the National Assembly for consideration by the Constitutional and Legislative Affairs Committee (CLAC) for sifting, as required for SIs proposed for the negative procedure to be made under the EU (Withdrawal) Act 2018. Of these 29, the committee agreed that 27 should be made by the negative procedure. All of these have now been laid before the National Assembly. Three further SIs have been made under the negative procedure but not using powers under the EU (Withdrawal) Act. All of these negative SIs are being laid in time for them to come into force by 29 March.

CLAC considered two of the proposed negative SIs should be subject to the affirmative procedure and the Welsh Government accepted both recommendations, laying a draft of the first as affirmative on 19 February and the second on 5 March. Including these, we have laid 11 affirmative SIs to be considered by the National Assembly ahead of exit day. For ease of reference, I have attached a table of all the EU Exit SIs laid before the National Assembly to date.

Additionally, we are anticipating up to eight SIs, which are intended to come into force after 29 March. The majority of these would make amendments to Welsh law in consequence of UK legislation, which has not yet been made. For example, we may need to make amendments to the Allocation of Housing and Homelessness (Eligibility) (Wales) Regulations 2014 but these are dependent on the Immigration and Social Security Co-ordination (EU Withdrawal) Bill, which is undergoing Parliamentary scrutiny. Further SIs may be required as a result of emergency legislation made in response to a no deal exit on 29 March, should that situation occur.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 813

The remainder of the SIs are unrelated to UK legislation currently in Parliament and will come into force after exit day as their provisions do not need to take effect until a later date. We are endeavouring to lay these at the earliest opportunity to enable scrutiny of the complete picture of EU Exit SIs.

I hope this information is of use to the committee in providing a more detailed context for your consideration.

I am copying this letter to Mick Antoniw AM, chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Yours sincerely,



Jeremy Miles AM

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales

SeneddEAL@assembly.wales

11 March 2019

Dear David,

I am writing to you following my appearance at the External Affairs and Additional Legislation Committee on 4 February to provide you with more detailed information about the Welsh EU Exit SI programme, the progress to date and possible future SIs relating to EU Exit.

By the week of my appearance, 29 proposed negative procedure statutory instruments had been laid before the National Assembly for consideration by the Constitutional and Legislative Affairs Committee (CLAC) for sifting, as required for SIs proposed for the negative procedure to be made under the EU (Withdrawal) Act 2018. Of these 29, the committee agreed that 27 should be made by the negative procedure. All of these have now been laid before the National Assembly. Three further SIs have been made under the negative procedure but not using powers under the EU (Withdrawal) Act. All of these negative SIs are being laid in time for them to come into force by 29 March.

CLAC considered two of the proposed negative SIs should be subject to the affirmative procedure and the Welsh Government accepted both recommendations, laying a draft of the first as affirmative on 19 February and the second on 5 March. Including these, we have laid 11 affirmative SIs to be considered by the National Assembly ahead of exit day. For ease of reference, I have attached a table of all the EU Exit SIs laid before the National Assembly to date.

Additionally, we are anticipating up to eight SIs, which are intended to come into force after 29 March. The majority of these would make amendments to Welsh law in consequence of UK legislation, which has not yet been made. For example, we may need to make amendments to the Allocation of Housing and Homelessness (Eligibility) (Wales) Regulations 2014 but these are dependent on the Immigration and Social Security Co-ordination (EU Withdrawal) Bill, which is undergoing Parliamentary scrutiny. Further SIs may be required as a result of emergency legislation made in response to a no deal exit on 29 March, should that situation occur.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 815

The remainder of the SIs are unrelated to UK legislation currently in Parliament and will come into force after exit day as their provisions do not need to take effect until a later date. We are endeavouring to lay these at the earliest opportunity to enable scrutiny of the complete picture of EU Exit SIs.

I hope this information is of use to the committee in providing a more detailed context for your consideration.

I am copying this letter to Mick Antoniw AM, chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Yours sincerely,



Jeremy Miles AM

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Ein cyf/Our ref: MA-L/KS/0051/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@cynulliad.cymru

8 Mawrth 2019

Annwyl Mick

Yn dilyn fy llythyr ar 25 Ionawr am ymateb Gweinidogion Cymru pan osodwyd y Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) gan Lywodraeth y DU yn Senedd y DU, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran yr Offeryn Statudol cysylltiedig: **Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** ('OS y PSO').

Fel y gwyddoch, gosodwyd **Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019** gan yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Senedd y DU ar 21 Ionawr. Yn ein barn ni, nid yw cymorth gwladwriaethol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ac o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, rydym yn credu y dylid bod wedi gofyn i Weinidogion Cymru am eu caniatâd cyn gosod yr offeryn. Hefyd, rydym yn siomedig nad yw'r rheoliadau, fel y maent wedi eu gosod, yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau drwy gydsyniad rhwng y naill a'r llall ac nad ydynt yn darparu trefniant Cymorth Gwladwriaethol sydd wir yn eiddo i bob un o'r pedair Llywodraeth yn y DU.

Mae ein barn am gymorth gwladwriaethol yn effeithio ar OS y PSO. Mae Rheoliad 1370/2007 yn pennu'r amodau ar gyfer digolledu gweithredwyr rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus (PSO) am y costau y maent yn eu hysgwyddo wrth gynnal eu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Rheoliad 1370 yn darparu ar gyfer eithrio'r sector rhag y rheolau cyffredinol ar gymorth gwladwriaethol (gwasanaethau trafndiaeth teithwyr cyhoeddus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd), gan ryddhau'r awdurdodau cyhoeddus rhag gorfod cael cymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ymlaen llaw gan y Comisiwn bob tro y telir iawndal i weithredwr gwasanaeth cyhoeddus, cyn belled â bod yr iawndal yn clymffurfio â gofynion Rheoliad 1370/2007.

Serch hynny, rydym yn sylweddoli bod angen sicrhau bod y llyfr statud yn weithredol ar y diwrnod ymadael, ac yn cydnabod bod y cywiriadau i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn masnachfaint y rheilffyrdd a sefydlwyd gan yr OS hwn yn hanfodol er mwyn i'r gwasanaethau rheilffyrdd ar draws y DU allu parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

At hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â swyddogion yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer rhedeg system cymorth gwladwriaethol ar gyfer y DU yn gyfan.

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi'n hysbysu ni y bu'n rhaid gosod yr OS ar gyfer sifftio ar 28 Ionawr er mwyn cael digon o amser iddo ddod i rym ar y diwrnod ymadael pe bai'r pwyllgorau sifftio yn penderfynu y dylai'r OS ddilyn y drefn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chaiff yr offeryn ei wneud heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.

Mae'n glir i ni fod y terfynau amser eithriadol sydd ar ein gwarthaf yn cyfyngu ar sgôp unrhyw negodi ar y pwnc cymhleth hwn sydd wedi para heb ei ddatrys ers blynyddoedd lawer. Rydym felly yn fodlon bod yn bragmatig yn hyn o beth er mwyn diogelu pobl a chaniatáu'r OS yn ei gyfanrwydd am nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhyngom ac y byddai'n lleddfu pryderon yr Awdurdodau Datganoledig. Nid yw hyn, serch hynny, yn rhagfarnu'n safbwynt am gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â chymorth gwladwriaethol.

Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, Andrew Jones AS, sy'n gyfrifol am yr OS hwn, i gyfleu'r farn hon a bydd trafodaethau'n para rhwng y ddwy weinyddiaeth.

Byddwn yn hysbysu Aelodau'r Cynulliad am hyn trwy ddatganiad ysgrifenedig cyn hir.

Yn gywir



Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Ein cyf / Our ref: MA-L/VG/0239/19

Penaethiaid y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2019

Annwyl Gadeiryddion,

Yn dilyn cyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol), mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r pŵer canlyniadol Harri'r VIII yn y Bil yng Nghymal 5 (3).

Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu pŵer gwneud rheoliadau a oedd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sylfaenol. Byddai hyn yn cynnwys Mesur neu Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddwn wedi ysgrifennu i Lywodraeth y DU yn mynegi fy mhryderon am y pŵer gwneud rheoliadau hwn. Os derbynnir gwelliant y Llywodraeth ni fydd y Bil yn caniatáu mwyach i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio, diddymu neu ddirymu Deddfwriaeth Sylfaenol Gymreig. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol sy'n adlewyrchu'r pwysau a roddwyd ar Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r pŵer eithafol hwn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno gwelliant sy'n mabwysiadu'r dull machludo mewn perthynas â'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymalau 2(1)a a 2(1)b fel bod modd eu harfer am gyfnod penodedig o bum mlynedd yn unig. Mae'r cymalau hyn yn angenrheidiol yn y tymor byr er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol yn sgil newid sydyn yn y gofal iechyd ar gyfer gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE pe byddai'r DU yn Ymadael â'r UE heb gytundeb oherwydd maent yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud darpariaeth unochrog. Croesewir y gwelliant hwn gan ei fod yn cyfyngu ar gwmpas y Bil. Gellid parhau i ddefnyddio'r Bil i roi effaith i gytundebau gofal iechyd y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd hwn.

Nid wyf yn ystyried bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r gwelliannau hyn gan eu bod naill ai'n cyfyngu ar bwerau a bennwyd yn y memoranda presennol neu'n eu dileu. Nid ydynt yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyflwynwyd gwelliant pellach gan Lywodraeth y DU sy'n ymwneud ag adrodd ariannol mewn perthynas â thaliadau o dan gymal 1. Gan y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaeth gyfatebol mewn Bil y Cynulliad mewn perthynas â thalu am driniaeth dramor a awdurdodwyd ymlaen llaw a ariennir gan y GIG yng Nghymru, byddai'n ofynnol o dan amgylchiadau arferol cael Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall ar gyfer y ddarpariaeth hon. Nid oes digon o amser yn awr i baratoi a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o'r fath ond roeddwn am ddod â'r gwelliant hwn sydd i'w groesawu at sylw'r Aelodau.

Byddai'r gwelliannau hyn yn gwella'r Bil ymhellach, ac rwy'n dal i argymhell cydsyniad ar gyfer y Bil drwy'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at bob Aelod Cynulliad er mwyn iddynt allu cyfeirio ato cyn y ddaol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Eitem 6.6



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L CG 0274 19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

08 Mawrth 2019

Annwyl Mick,

Y BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 18 Chwefror fe ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch adran 8 y Bil. Mae nodyn ar hwn wedi'i atodi yn Atodiad A.

Fe soniais yn ogystal fy mod wedi gofyn i swyddogion baratoi diagram yn esbonio natur gymhleth deddfwriaeth ar hyn o bryd, a sut y bydd Cod o Gyfraith Cymru yn cydgrynhoi a chodeiddio hyn. O ystyried y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth gynllunio a wnaethpwyd yn ystod tystiolaeth rhan ddeiliaid, rydym wedi defnyddio hwn fel yr esiamp. Rydw i'n gobeithio y bydd Atodiad B yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor am ei fod hefyd yn rhoi syniad o sut y gall gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales fod yn ddefnyddiol er mwyn cyhoeddi Codau a deunydd esboniadol yn y dyfodol.

Yn gywir,

Jeremy Miles AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 821

Yr Atodiad: sylwadau ar adran 8 o'r Bil

Diben ac effaith adran 8

1. Pan fydd term sy'n cael ei ddefnyddio mewn Deddf neu offeryn yn cael ei ddiffinio'n statudol, mae adran 8 o'r Bil yn darparu bod "rhannau ymadrodd eraill a ffurfiau neu oleddfiadau gramadegol" ar y term hwnnw i'w dehongli yn unol â'r diffiniad. Un o ddibenion adran 8 yw galluogi deddfwriaeth i fod yn fyrrach ac yn fwy cyson, mewn achosion pan fwriedir i ddiffiniad o un term lywodraethu ystyr termau perthynol.
2. Er enghraifft, pe bai Deddf yn creu cynllun cofrestru, gallai ddiffinio "y gofrestr". Gallai'r Cynulliad fwriadu i eiriau megis "cofrestru" a "cofrestriad" gael eu dehongli drwy gyfeirio at y gofrestr honno. Gallai'r bwriad hwnnw fod mor amlwg fel na fyddai angen i'r Ddeddf ei grybwyll. Os na fyddai'r bwriad yn amlwg, byddai'r drafftivr yn ychwanegu geiriad at ddiwedd y diffiniad o "y gofrestr" er mwyn gwneud hyn yn glir, megis "mae ymadroddion perthynol i'w dehongli yn unol â hynny". Mae adran 8 yn osgoi'r angen i ailadrodd y math hwn o eiriad ym mhob achos, ac yn lleihau'r risg y bydd drafftwyr gwahanol yn drafftio mewn ffyrdd anghyson.
3. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bod adran 8 yn "mynd yn rhy bell".¹ Ar un olwg mae hyn yn wir, oherwydd bod adran 8 yn creu rhagdybiaeth ynghylch yr hyn y bwriedir i ddeddfwriaeth ei olygu, ac ni fydd hyn yn iawn ar gyfer pob Deddf ac offeryn. Fodd bynnag, mae'r un peth yn wir am bob rheol yn Rhan 2 o'r Bil: maent i gyd yn rhagdybiaethau cyffredinol, sydd wedi eu cynnwys oherwydd bod y Llywodraeth yn credu eu bod yn iawn ar gyfer y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth Cymru. Ond bydd achosion pan fydd angen i ddeddfwriaeth weithio'n wahanol. Dyna pam y mae'r rhan fwyaf o'r rheolau yn Rhan 2 yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth ddatganedig i'r gwrthwyneb neu i unrhyw gyd-destun sy'n mynnu dehongliad gwahanol.
4. Awgrymwyd yn y dystiolaeth y gallai unrhyw broblem o ran cymhwyso adran 8 gael ei datrys drwy ddehongli ("*resolved by interpretation*") ac y byddai'r ystyr a fwriedir fel arfer yn glir o'r cyd-destun.² Rydym yn cytuno y gall fod achosion pan nad yw diffiniad statudol yn gymwys i derm perthynol oherwydd bod y cyd-destun yn ei gwneud yn glir mai canlyniad gwahanol yw'r bwriad. Fodd bynnag, nid ydym yn gweld hyn yn wendid; yn hytrach, mae'n nodwedd annatod o sut y bwriedir i Ran 2 o'r Bil weithredu.

Y berthynas rhwng enwau a berfau

5. Cyfeiriwyd y Pwyllgor at sylw'r Athro Daube y gall fod i "enwau asiant" (sy'n cyfeirio at bobl sy'n gwneud pethau) ac ambell waith "enwau gweithred" (sy'n cyfeirio at yr hyn a wneir) ystyron mwy cul a mwy penodol na'r berfau cyfatebol.³ Felly, nid yw pawb sy'n pobi yn bobydd, ac nid cogydd yn unig sy'n coginio.⁴
6. Mae rhywfaint o rym i'r sylwadau hyn wrth gyffredinoli am yr hyn y mae geiriau yn tueddu i'w olygu yn y defnydd arferol o iaith, os ydynt yn cael eu defnyddio heb unrhyw esboniad pellach. Ond mae ystyron geiriau bob amser yn dibynnu ar y cyd-destun lle y cânt eu defnyddio, ac nid yw'n anodd meddwl am gyd-destunau lle y bwriedir i "cogydd"

¹ Tystiolaeth lafar gan yr Athro Thomas Glyn Watkin, 14 Ionawr 2019, paragraffau 157, 161.

² Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro Watkin, 5 Ionawr 2019, paragraff 23; tystiolaeth lafar, paragraffau 153, 155.

³ Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro Watkin, paragraff 23; tystiolaeth lafar, paragraff 150. Gwnaed y pwynt gan yr Athro Daube mewn darlith ar Gyfraith Rufain yn 1966, fel rhan o ddadl yn erbyn dod i gasgliadau hanesyddol ffug ar sail y tarddiadau ieithyddol cyffredin ar gyfer enwau cysyniadau cyfreithiol. Yn benodol, nododd y gallai enwau gweithred ymddangos mewn cofnodion sydd gryn dipyn yn ddiweddarach na'r berfau y maent yn tarddu ohonynt.

⁴ Efallai ei bod yn bosibl dadlau hefyd fod tuedd i enwau asiant feddu ar ystyron mwy cul na'r enwau gweithred cyfatebol. Er enghraifft, gellid dweud "Tudalen y pecyn 822" yn cael ei wneud gan bobyddion".

neu “pobydd” olygu dim byd mwy na rhywun sy’n coginio neu’n pobi, ac nid unigolyn sy’n gwneud hynny o ran galwedigaeth neu mewn unrhyw ffordd arbennig. Nid yw’r sawl sy’n dweud “Cogydd da ydw i” o reidrwydd yn defnyddio “cogydd” mewn unrhyw ystyr arbennig.

7. Pa mor ddilys bynnag y bo’r honiadau ieithyddol hyn wrth ddisgrifio’r defnydd arferol o iaith, nid ymddengys eu bod yn ddadleuon ynghylch sut y mae geiriau yn cael eu defnyddio yn y cyd-destunau deddfwriaethol penodol y bydd adran 8 o’r Bil yn gymwys iddynt. Nid ymdrin ag ystyron geiriau yn gyffredinol y mae adran 8 o’r Bil, ond ag achosion pan fo deddfwriaeth yn defnyddio geiriau ac ymadroddion sy’n perthyn i dermau eraill y rhoddydd diffiniadau statudol iddynt. Mae llawer llai o rym i’r dadleuon yn y cyd-destun hwn.
8. Rhan bwysig o gyd-destun adran 8 yw’r ffaith nad yw ond yn gymwys pan fo deddfiad yn rhoi diffiniad o air neu ymadrodd. Mae dau fath o sefyllfa, yn fras, pan fo deddfwriaeth yn cynnwys diffiniadau. Un ohonynt yw pan fo’r ddeddfwriaeth yn creu cysyniad neu label cyfreithiol newydd na fyddai ystyr iddo fel arall, megis “is-offeryn Cymreig” yn adran 3(2) o’r Bil. Y llall yw pan fo’r ddeddfwriaeth yn defnyddio gair neu ymadrodd cyffredin, ond mae angen egluro neu newid yr ystyr cyffredin yn y geiriadur sydd i’r gair hwnnw neu’r ymadrodd hwnnw at ddibenion y ddeddfwriaeth, megis yn y diffiniad o “Cymru” yn Atodlen 1 i’r Bil. Er na ddylai deddfwriaeth ddefnyddio geiriau mewn ffyrdd sy’n gamarweiniol, efallai y bydd angen i ddeddfwriaeth roi ystyron mwy manwl iddynt na’r ystyron arferol.
9. Mae’r dadleuon a wnaed yn y dystiolaeth yn awgrymu y gallai adran 8 o’r Bil olygu bod diffiniadau eang o ferfau yn cael eu cymhwyso yn anfwriadol i enwau y bwriadwyd iddynt gael ystyron mwy cul. Fodd bynnag, mae hynny’n awgrymu y gallai drafftwyd deddfwriaethol wneud ymdrech fawr i ddarparu diffiniadau manwl o ferfau, ond wedyn ddefnyddio enwau perthynol yn llac, heb ystyried y diffiniadau hynny nac adran 8.⁵ Nid dyna’r ffordd rydym yn disgwyl i ddeddfwriaeth gael ei drafftio; mae angen i ddrafftwyd deddfwriaethol feddwl yn ofalus bob amser am ystyr y geiriau y maent yn eu defnyddio. Os yw Deddf yn diffinio term, rhaid i’r drafftiwr ystyried sut y gallai’r diffiniad effeithio ar ystyr unrhyw dermau tebyg a ddefnyddir mewn manau eraill yn y Ddeddf.
10. Mae cysondeb a manwl gywirdeb yn arbennig o bwysig wrth ddrafftio deddfwriaeth. Gall hynny olygu bod deddfwriaeth yn defnyddio enwau mewn ffyrdd sy’n cyfateb yn agosach at eu berfau perthynol nag mewn cyd-destunau eraill sy’n llai ffurfiol. Os yw Deddf yn diffinio “mewnforio” mewn ffordd benodol, mae’n debyg y bwriedir i “mewnforiad” olygu gwneud yr hyn sydd wedi ei gwmpasu gan y diffiniad, ac i “y mewnforiwr” olygu’r person sy’n ei wneud. Dyna fydd y sefyllfa ddiodyn o dan adran 8, ond bydd angen penderfynu ym mhob achos a yw adran 8 yn cael yr effaith gywir.
11. I’r gwrthwyneb, os yw Deddf yn diffinio berf mewn ffordd benodol ond mae’r drafftiwr am roi ystyr mwy arbenigol i enw perthynol, bydd rhaid i’r Ddeddf ddiffinio’r enw. Os yw’r Ddeddf yn diffinio “mewnforio” ond yn bwriadu i “mewnforiwr” olygu person sy’n ymwneud â mewnforio mewn ffordd benodol iawn, bydd rhaid i’r Ddeddf ddatgan hynny yn glir. Byddai hynny’n wir gydag adran 8 neu hebdi; ac os oes diffiniadau ar wahân ar gyfer y ferf a’r enw, ni fydd adran 8 yn berthnasol i’r berthynas rhyngddynt.⁶

⁵ Efallai fod hyn yn awgrymu y gallai deddfwriaeth ddiffinio “enwau gweithred” ond defnyddio “enwau asiant” yn llac wedyn. Yn aml iawn, mae deddfwriaeth yn diffinio enwau gweithred (megis “tramgwydd” neu “addysg” neu “mabwysiad”) ac wedyn yn darparu i’r diffiniadau hynny fod yn gymwys i “ymadroddion perthynol” megis berfau neu enwau asiant. Ond mae’r angen i fod yn ofalus ac yn fanwl yr un mor bwysig wrth ddiffinio term sy’n enw ag y mae wrth ddiffinio berf.

⁶ Bydd adran 8 yn dal i fod yn berthnasol i amrywiadau gramadegol eraill ar y termau sydd wedi eu diffinio, megis treigladau, cywasgiadau, ffurfdroadau berf, a threfnau llysoeg a ymddangosir yn y ddeddfwriaeth. Tudalen y pecyn 823

12. Cyfeiriodd y dystiolaeth i'r Pwyllgor at y posibilrwydd y gall fod i enw weithiau ystyr hollol wahanol i ferf gyfatebol.⁷ Yn sicr, mae'n bosibl y gall deddfwriaeth ddiffinio un term weithiau a hefyd ddefnyddio term arall sy'n perthyn yn etymolegol iddo ond y mae ystyr hollol wahanol iddo. Yn yr achos hwnnw, byddem yn dweud nad oedd y ddau derm yn ffurfiau gwahanol ar yr un term, ac ni fyddai adran 8 yn gymwys.
13. Gan ystyried yr enghraifft a grybwyllwyd yn y dystiolaeth lafar, ni fyddai adran 8 yn golygu bod diffiniad statudol o'r ffurfiau berfol "*solicit*" neu "*soliciting*" yn gymwys i gyfeiriadau at yr enw "*solicitor*". Ni fyddai siaradwyr Saesneg Prydeinig yn ystyried "*solicitor*" yn enw asiant ar y ferf "*solicit*" ond yn hytrach, byddent yn ei weld yn air hollol wahanol. Byddai adran 8 yn amherthnasol felly.

Y gwahaniaethau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg

14. Tynnwyd sylw at y ffaith y gall y ffyrdd y mae berfau ac enwau yn cyfateb i'w gilydd fod yn wahanol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddwyd yr enghraifft hon mewn tystiolaeth:

"Cymerwch air fel 'compose' yn Saesneg. Mae 'composer' yn mynd gyda 'compose' a 'composition' hefyd. Trowch at y Gymraeg: 'cyfansoddi', 'cyfansoddwr', 'cyfansoddiad'—rŷch chi wedi mynd yn awr at 'constitution', yntê, a dim byd i wneud â 'composition'."⁸

15. Ond mae i'r gair "cyfansoddiad" ystod o ystyron bosibl sy'n cynnwys "*composition*" yn ogystal â "*constitution*".⁹ Pe bai darn o ddeddfwriaeth yn defnyddio'r geiriau "cyfansoddi" a "cyfansoddiad" mae'n anodd dychmygu sut y gallai'r cyd-destun adael unrhyw amheuaeth ynghylch pa ystyron a fwriadwyd. Ond byddai angen i'r drafftiwr a'r cyfieithydd sicrhau na fyddent yn defnyddio'r geiriau mewn ffordd a fyddai'n creu amwysedd, yn yr un ffordd ag y dylent bob amser ystyried unrhyw amwyseddau bosibl a'u hosgoi.
16. Mae'n bosibl y gallai testun Bil mewn un iaith ddefnyddio berf ac enw sy'n ffurfiau sy'n perthyn yn etymolegol i'w gilydd, tra byddai testun y Bil yn yr iaith arall yn defnyddio ffurfiau na fyddent yn perthyn yn etymolegol i'w gilydd. Er enghraifft, gallai'r testun Cymraeg ddefnyddio "dysgu" ac "athro" sydd â gwreiddiau gwahanol, tra byddai'r testun Saesneg yn defnyddio "*to teach*" a "*teacher*" sy'n dod o'r un gwreiddyn etymolegol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod geiriau yn perthyn i'w gilydd yn ramadegol er bod iddynt darddiadau etymolegol gwahanol.
17. Nodwedd llawer o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg, yw y gall ffurfdroadau gwahanol neu ffurfiau gramadegol gwahanol ar yr un rhan ymadrodd (e.e. ffurfiau ar enw, ansoddair neu ferf) fod yn seiliedig ar wreiddiau etymolegol gwahanol. Er enghraifft, yn Gymraeg mae i "gwell" a "gorau" wreiddyn gwahanol i "da", ac yn Saesneg mae'r un peth yn wir am "*better*" a "*best*" a "*good*". Gellir gweld hyn mewn ffurfdroadau berfol hefyd: mae gan "mynd" darddiad gwahanol i "aeth", ac mae'r un peth yn wir am "*go*" a "*went*". Mae defnyddio geiriau nad ydynt yn perthyn yn etymolegol yn y ffordd hon yn cael ei alw weithiau yn "cyflenwadaeth" ("*suppletion*").
18. Gall y cysyniad hwn hefyd gael ei gymhwyso i achosion pan ystyrir bod rhannau ymadrodd gwahanol (megis enw ac ansoddair) yn perthyn i'w gilydd o ran ystyr er bod

⁷ Tystiolaeth lafar gan yr Athro Watkin, paragraffau 150, 159.

⁸ Tystiolaeth lafar gan yr Athro Watkin, paragraff 161.

⁹ Mae *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn rhoi'r ystyron Saesneg a ganlyn ar gyfer "cyfansoddiad": "*composition, combination; order, arrangement; constitution, physique; nature, disposition, temperament; the act of composing; that which is composed; structure, fabric; constitution of a state, &c.*"

iddynt darddiadau etymolegol gwahanol. Er enghraifft, yn Gymraeg, nid yw “athro” yn perthyn yn etymolegol i “dysgu” (neu “addysgu”) ond mae’n arfer swyddogaeth fel enw asiant i “dysgu” (neu “addysgu”). Yn Saesneg, defnyddir “*lunar*” fel ansoddair o “*moon*” a “*bovine*” fel ansoddair o “*cow*”. Gallant gael eu hystyried yn rhannau ymadrodd cyflenwadol gwahanol o’r un gair.


19. Fel yn yr enghreifftiau hyn, gall cyflenwadaeth ddigwydd yn y naill iaith ond nid yn y llall. Gall olygu fod y geiriau a ddefnyddir mewn un iaith yn perthyn yn etymolegol er nad yw hynny’n wir am y geiriau cyfatebol yn yr iaith arall. Mae hwn yn fater y bydd rhaid i ddrafftwyd a chyfieithwyr ei gadw mewn cof wrth lunio dau destun mewn dwy iaith wahanol ar gyfer Bil neu offeryn, yn union fel y maent yn gorfod cadw mewn cof wahaniaethau eraill rhwng y Gymraeg a’r Saesneg.
20. Hefyd, mae’n bwysig nodi nad adran 8 o’r Bil sy’n creu’r materion hyn, ond gallant godi yn awr. Ar hyn o bryd, os yw drafftiwr darn o ddeddfwriaeth Cymru yn bwriadu cymhwyso diffiniad o derm i dermau perthynol eraill, neu os yw’n tybio ei bod yn amlwg y bydd diffiniad yn gymwys i dermau perthynol, bydd rhaid i’r drafftiwr a’r cyfieithydd sicrhau ei bod yn hollol glir i ba dermau y mae’r diffiniad yn gymwys ym mhob iaith. Os oes unrhyw amheuaeth, un ateb posibl yw diffinio’r holl eiriau ac ymadroddion o dan sylw yn y testunau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Ni fydd adran 8 yn newid y sefyllfa honno.

Casgliad

21. Am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn ystyried bod y materion ieithyddol a grybwyllwyd yn y dystiolaeth o berthnasedd cyfyngedig i dermau sydd wedi eu diffinio yn neddfwriaeth Cymru. Nid ydym yn credu eu bod yn dangos y bydd adran 8 o’r Bil yn achosi unrhyw broblemau.

Deddfwriaeth sylfaenol presennol ar gynllunio

Tudalen y pecyn 826



Nodyn: Mae hyn yn gynrychiolaeth o ddeddfwriaeth sylfaenol presennol ar gynllunio, y mwyafrif yn gymwys i Gymru a Lloegr. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth yn diwygio y Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 a oedd ei hyn yn gyfuniad o ddeddfwriaeth cynllunio wnaed ers 1947, ond llawer ar wahân ar hyn o bryd. Nid yw'r diagram yn cyfleu'r helaeth o is-ddeddfwriaeth a chanllawiau (megis Nodiadau Cyngor Technegol) sydd hefyd yn berthnasol.

Deddfwriaeth yn y dyfodol a'r gynllunio

Cod


Deddfwriaeth sylfaenol

Is-Deddfwriaeth

Codau Ymarfer a chanllawiau

Deunydd esboniadol

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir



Nodyn: Fydd y Deddf Cynllunio (Cymru) 2022 yn cyfnerthu, ar gyfer Cymru yn unig, o'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol ar gynllunio. Byddai ei deddfu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn 'Brif Ddeddf' ar gyfraith cynllunio. Gallai Rheolau Sefydlog y Cynulliad ddiogelu strwythur 'prif ddeddfau' yn y dyfodol.

Beth yw cyfraith cynllunio?

>Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum irure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum irure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum irure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum irure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

Sut mae gwneud cais am ganiatâd cynllunio?

>Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum irure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum irure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

Codau deddfwriaethol taith llywio'r safle


Tudalen y pecyn 828

Tudalen ragarweiniol

Codau Cyfraith Cymru

Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

> Codau



www.legislation.gov.uk

Pob Cod

Codau Cyfraith Cymru

| | | | |
|-----------------------------------|------------------|--|--|
| Cynllunio, adeiladu a tuir | Addysg a sgiliau | | |
| | | | |

Un cod

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir

| | | | |
|-------------------------------------|----------------------|-------------------------------|---------------------------------|
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2022 | Cydyniadau Sillwaith | Caffael tir a phrynu gorfodol | Rheoliadau adeiladu a rheolaeth |
|-------------------------------------|----------------------|-------------------------------|---------------------------------|

Rhan o god

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir: Cynllunio

| | |
|------------------------------|--|
| Cod | Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir |
| Deddfwriaeth sylfaenol | Deddf Cynllunio (Cymru) 2022 |
| Is-Deddfwriaeth | Rheoliadau Sillwaith |
| Codau Ymferfer a chanllawiau | Caffael tir a phrynu gorfodol |
| Deunydd esboniadol | Rheoliadau adeiladu a rheolaeth |

Beth yw orfain gorfodol?
Sut mae gwneud cais am ganiatâd cynllunio?

Naratif esboniadol

Cynllunio Cyfraith Cymru / Law Wales

Beth yw cyfraith cynllunio?

Sut mae gwneud cais am ganiatâd cynllunio?



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Eitem 6.7

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO593/EJ/GE

13 Mawrth 2019

Annwyl Mick

Diolch yn fawr ichi am anfon yr adroddiad y gwnaethoch ei gomisiynu gan Syr Paul Silk sy'n ystyried sut y gallai Cynhadledd y Llefaryddion weithio yn ymarferol. Mae'r papur yn ddefnyddiol iawn wrth iddo nodi'r materion allweddol sydd angen eu hystyried. Mae'n werth rhoi ystyriaeth fanwl i'r gwahanol bosibiliadau o ran sut y gallai corff o'r fath weithredu a beth fyddai ei werthoedd, ac mae papur Syr Paul Silk yn gyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth honno.

Mae gennyf feddwl agored o hyd, ac rwy'n croesawu'r drafodaeth barhaus â'ch pwyllgor chi ac Aelodau eraill ar y mater pwysig iawn hwn o ran strwythurau rhyngseneddol. Dylai unrhyw farn gadarn y dof iddi ar y mater hwn gael ei llywio gan safbwyntiau Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgorau.

Cyn y cyfarfod nesaf a gaf gyda Chyd-lefaryddion, rwy'n cynnig y dylwn gael rhyw fath o syniad o'r hyn y mae'r Aelodau yn ei gredu fyddai'r model gorau ar gyfer Cynhadledd y Llefaryddion. Gan hynny, rwy'n awgrymu eich bod yn ystyried defnyddio'r papur a gomisiynwyd at ddibenion y drafodaeth yn eich fforwm rhyngseneddol fis Ebrill, a'n bod ni'n trefnu cyfarfod rhyngom ni a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn dilyn y fforwm. Bydd y cyfarfod hwn yn gyfle i drafod y gwahanol fodelau a nodir yn y papur, ac i glywed barn yr Aelodau ynghylch pa bosibiliadau y maent yn credu y dylid eu hystyried ymhellach a'r ffordd orau o gyflawni hyn.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 829

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon